Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL
RHIF:63/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
19/07/2024

# Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal: astudiaeth Delphi

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-83625-381-5

Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal: astudiaeth Delphi

Awduron: Alma Economics

Mae Alma Economics yn cyfuno arbenigedd dadansoddol heb ei ail â'r gallu i gyfleu syniadau cymhleth yn glir.

Adroddiad ymchwil llawn: Alma Economics (2024). *Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal: astudiaeth Delphi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 63/2024
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-astudiaeth-delphi

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ
E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad/Cefndir .....3
2. Methodoleg .....6
3. Canfyddiadau .....11
4. Casgliadau .....46
5. Cyfeiriadau .....51

Atodiad A – Deunyddiau ymchwil .....53

**Rhestr tablau**

Tabl 2.1: Nifer y cyfranogwyr fesul sector a math o weithgaredd ymchwil ............................8
Tabl 3.1: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant ........................................................................................13
Tabl 3.2: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant ........................................................................................13
Tabl 3.3: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effeithiau cadarnhaol posibl dileu darpariaeth er-elw ........................................................................................16
Tabl 3.4: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effeithiau cadarnhaol posibl dileu darpariaeth er-elw ........................................................................................17
Tabl 3.5: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effeithiau negyddol posibl dileu darpariaeth er-elw ........................................................................................20
Tabl 3.6: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar y mesurau i sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol neu liniaru yn erbyn unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad ........................................................................................26
Tabl 3.7: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar y mesurau i sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol neu liniaru yn erbyn unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad ........................................................................................28
Tabl 3.8: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru ...........................................33
Tabl 3.9: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru ...........................................34
Tabl 3.10: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru ........................................................................................37
Tabl 3.11: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru ........................................................................................38
Tabl 3.12: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar y mesurau ychwanegol i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru ........................................................................................41
Tabl 3.13: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar y mesurau ychwanegol i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru ........................................................................................43

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

## Cyd-destun

1.1 Bu cynnydd graddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ers yr 1990au, gan ragori ar y cyfraddau a welwyd yn Lloegr. Dengys data diweddar gan StatsCymru gynnydd o 22.9% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, gan godi o 5,760 yn 2013 i 7,080 yn 2022. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi gorchymyn i Awdurdodau Lleol (ALl) sicrhau llety digonol i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal. Cynigir ystod o opsiynau lleoliad sy'n cynnwys gofal maeth, cartrefi plant, a lleoliadau preswyl eraill. Mae miloedd o blant yn cael eu lleoli mewn trefniadau maeth ledled Cymru, tra bod cartrefi plant hefyd yn chwarae rhan hanfodol, gan ddarparu gofal a chymorth preswyl. Ym mis Tachwedd 2023, roedd 23 o wasanaethau maethu annibynnol a 297 o gartrefi plant yng Nghymru (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2023). Mae'r rhan fwyaf o gartrefi plant yn cael eu gweithredu gan ddarparwyr cwmnïau cyfyngedig. Dim ond 17.73% sy'n cael eu rheoli gan ALlau neu sefydliadau elusennol. Ledled Cymru, mae darparwyr er-elw yn chwarae rhan arwyddocaol mewn bodloni'r galw am leoliadau.

1.2 Er gwaethaf y gwahaniaeth presennol yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i blant sy'n derbyn gofal, mae ymchwil i ansawdd darpariaeth gofal cymdeithasol plant fesul math o fusnes darparwr yn gyfyngedig. Mae adolygiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Ablitt, Jimenez & Holland (2024) wedi dechrau mynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy adolygiad o dystiolaeth sy'n archwilio effaith dileu elw o ofal preswyl a maethu plant. Hefyd, mae ymchwil diweddar gan Bach-Mortensen, Goodair & Barlow (2022) yn tynnu sylw at y ffaith bod ymchwiliadau i ansawdd gwasanaeth a pherchnogaeth darparwyr o ofal cymdeithasol plant wedi'u dogfennu'n bennaf mewn ymchwiliadau newyddiadurol neu adroddiadau llenyddiaeth lwyd. Mynegodd yr Howard League for Penal Reform (2019) bryderon ynghylch gorddibyniaeth y sector ar ddarparwyr er-elw a chyfyngiadau ar draws y systemau caffael. Mae ymchwiliadau hefyd wedi archwilio achosion amrywiol o gamreoli sy'n gysylltiedig â chwmnïau gwasanaethau plant er-elw mawr, gan ddatgelu ansawdd gwasanaeth is o'i gymharu â mathau eraill o ddarparwyr (Holmes & Singer-Vine, 2018).

1.3 Yn ogystal â nifer o ymchwiliadau newyddiadurol, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cychwyn nifer o ymholiadau helaeth dros y degawdau diwethaf, megis Adolygiad Annibynnol Narey ar Ofal Preswyl yn Lloegr 2016 (Narey, 2016), yr

Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant ar draws y DU (MacAlister, 2022), ac adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar y farchnad gofal cymdeithasol plant ym Mhrydain Fawr (CMA, 2022). Gyda'i gilydd, mae'r ymchwiliadau hyn wedi tanlinellu diffygion parhaus o ran cyflenwi gwasanaethau, gan amlygu'r heriau a gyflwynir gan ymchwil gyfyngedig ar draws y cyd-destun Cymreig (Bach-Mortensen, Goodair, & Barlow, 2023).

1.4 Gan gydnabod yr heriau amlochrog a chymhleth hyn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn 2024 i fynd i'r afael â goruchafiaeth ac effeithiau posibl darpariaeth gofal preswyl a maeth plant er-elw. Cafwyd hwn o ganlyniad i'r cytundeb Cydweithredu (ar y pryd) rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, oherwydd pryderon am effaith cymhellion sy'n cael eu gyrru gan elw ar ddarpariaeth gwasanaethau a chanlyniadau. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, bydd rhaid i ddarparwyr newydd sy'n ceisio cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ddangos statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026, a bydd angen i ddarparwyr er-elw presennol bontio erbyn 1 Ebrill 2027. Roedd y cynigion deddfwriaethol hyn yn amodol ar ymgynghoriad rhwng Awst a Thachwedd 2022 fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar wella ansawdd profiad pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol yng Nghymru.

1.5 Mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â'r weledigaeth ehangach o geisio newid system gyfan fel bod gwasanaethau plant yn datblygu gwasanaethau'n lleol, eu cynllunio'n lleol, a'u bod yn atebol yn lleol, tra'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, tegwch a chanlyniadau gwell i blant agored i niwed ledled Cymru. Bwriad y rhaglen gyffredinol yw sicrhau mwy o bwyslais ar yr hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn hytrach na'r hyn a allai fod fwyaf proffidiol. Mae'r diwygiadau deddfwriaethol hyn yn gofyn am dystiolaeth gadarn o fanteision a chanlyniadau darpariaeth gofal preswyl a maeth nid-er-elw, gan danlinellu pwysigrwydd ymchwil a dadansoddi pellach yn y maes hwn.

1.6 Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r manteision posibl a'r canlyniadau andwyol sy'n gysylltiedig â dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Bwriad yr astudiaeth ymchwil hon yw adeiladu ar ymgynghoriad cyhoeddus cynharach yn ogystal â chyfweliadau cychwynnol ag arbenigwyr (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2024) i ddod â safbwyntiau ymchwilwyr, ymarferwyr a chynrychiolwyr ALlau ynghyd yn systematig, yn ogystal ag eraill sy'n gweithio'n agos yn y maes hwn. Defnyddiodd Alma Economics ddull

ymchwil Delphi i ddwyn ynghyd safbwyntiau arbenigwyr i asesu i ba raddau y byddai dileu elw preifat o ofal plant sy’n derbyn gofal yn effeithio ar y gofal y mae’r plant hyn yn ei dderbyn a’u canlyniadau dilynol. Amcanion yr ymchwil oedd i:

i. Ddeall effeithiau posibl yr ymrwymiad – nodi sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol anfwriadol a sicrhau agweddau cadarnhaol, a

ii. Asesu sut, fel rhan o drawsnewid ehangach gofal cymdeithasol plant, y gallai canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc gael eu heffeithio.

1.7 O ystyried yr ymchwil gyfyngedig sydd ar gael ar ansawdd darpariaeth gofal cymdeithasol plant yn ôl math o fusnes y darparwr, ymchwiliodd yr astudiaeth hon hefyd i effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant, yn enwedig o ran:

i. gwasanaethau preswyl i blant a gwasanaethau gofal maeth, a'r

ii. canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.8 Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

1.9 Mae Pennod 2 yn ymdrin â'n dull methodolegol. Mae hyn yn cynnwys y gwahanol gamau sy'n gysylltiedig â gweithredu astudiaeth Delphi, gan gynnwys dwy rownd o holiaduron a rownd derfynol o grwpiau ffocws rhithwir.

1.10 Mae Pennod 3 yn nodi ein canfyddiadau yn unol â phob amcan ymchwil, gan drafod y canfyddiadau o bob cam o’r astudiaeth Delphi.

1.11 Mae Pennod 4 yn crynhoi'r holl feysydd consensws a'r meysydd lle nad oes consensws o ganlyniad i'r astudiaeth Delphi hon.

1.12 Mae’r adran olaf yn amlinellu’r casgliadau a myfyrdodau ehangach y cyfranogwyr ar yr ymrwymiad.

1.13 Mae’r cyfeiriadau a ddefnyddiwyd drwy’r adroddiad i’w gweld ym Mhennod 5, tra bod Pennod 6 yn cynnwys copïau o’r deunyddiau ymchwil a ddefnyddiwyd fel rhan o’r ymchwil hwn (holiaduron a chanllawiau trafod).

# 2. Methodoleg

### Cyflwyniad

2.1 Defnyddiwyd techneg arolwg Delphi i werthuso’r manteision posibl a’r canlyniadau andwyol sy’n gysylltiedig ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy’n derbyn gofal. Defnyddiwyd y dull adeiladu consensws tri cham hwn yn eang i helpu i wella prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol (Berger et al., 2023; Brenner et al., 2014; Christian et al., 2020). Trwy harneisio arbenigedd cyfunol arbenigwyr, mae dull Delphi yn darparu canfyddiadau cyflym a dibynadwy a all lywio'r gwaith o lunio polisïau trwy gydgrynhoi gwybodaeth arbenigol yn effeithlon. Yn yr ymchwil hwn, arhosodd arbenigwyr yn anhysbys tra'n derbyn crynodebau o ymatebion eu cyfoedion yn y rownd gyntaf a'r ail rownd. Roedd yr anhysbysrwydd hwn yn caniatáu iddynt fynegi eu barn yn rhydd a deall gwahanol safbwyntiau, gan hwyluso datblygiad consenswys.

2.2 Trwy broses strwythuredig yn cynnwys dwy rownd o holiaduron a cham olaf o grwpiau ffocws, llwyddodd methodoleg Delphi i sicrhau consenswys ar effeithiau presennol darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant, yn ogystal ag effeithiau posibl yr ymrwymiad ar wasanaethau preswyl a gwasanaethau gofal maeth plant, ynghyd â strategaethau i fynd i'r afael ag effeithiau cadarnhaol a negyddol. Asesodd hefyd sut y gallai canlyniadau llesiant gael eu heffeithio fel rhan o drawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach. Casglodd holiadur 1 syniadau a mewnwelediadau eang yn deillio o brofiad ac arbenigedd y cyfranogwyr, yn unol ag amcanion yr ymchwil. Yn Holiadur 2, gwahoddwyd arbenigwyr i raddio eu cytundeb â chyfres o ddatganiadau a dynnwyd o ymatebion Holiadur 1, gan hwyluso nodi meysydd consenswys. Nod yr astudiaeth oedd nid yn unig dod o hyd i gonsenswys ond hefyd amlygu gwahanol safbwyntiau, gan gynnig golwg gynhwysfawr ar y cymhlethdodau dan sylw. Roedd cam olaf y broses fethodolegol hon, y grwpiau ffocws, yn galluogi'r arbenigwyr i drafod ymhellach y meysydd lle na chafwyd consenswys, yn ogystal ag ystyried meysydd o flaenoriaeth lle daethpwyd i gonsenswys.

### Strwythur y dull methodolegol

2.3 Crynhoir y dull methodolegol ymhellach mewn pedwar cam:

- Yng Ngham 1 (Mawrth 2024), cynhaliwyd adolygiad pen desg i lywio cynllun astudiaeth Delphi. Hefyd, creodd a chynhaliodd y tîm ymchwil strategaeth amlochrog i recriwtio arbenigwyr.

- Roedd Cam 2 (Mawrth – Ebrill 2024) yn ymwneud â dylunio, dosbarthu a dadansoddi rownd gyntaf holiadur Delphi ar-lein (yn Gymraeg a Saesneg). Y nod oedd casglu syniadau a mewnwelediadau eang yn unol ag amcanion yr ymchwil.
- Roedd Cam 3 (Ebrill – Mai 2024) yn adeiladu ar y mewnwelediadau a gasglwyd yng Ngham 2 ac yn cynnwys ail rownd holiadur Delphi. Gwahoddwyd arbenigwyr i adolygu a graddio eu cytundeb â chyfres o ddatganiadau a oedd yn amlinellu'r effeithiau a'r strategaethau mwyaf arwyddocaol a nodwyd ymhlith yr ymatebion i Holiadur 1.
- Roedd Cam 4 (Mai 2024 – Mehefin 2024) yn cynnwys trafodaethau ansoddol ar ffurf grwpiau ffocws rhithwir. Bu arbenigwyr yn cymryd rhan mewn proses strwythuredig i archwilio ymhellach feysydd lle na chafwyd consensws a graddio meysydd consensws lluosog. Roedd hyn yn ein galluogi i nodi'r effeithiau a'r awgrymiadau mwyaf hanfodol, gan ffurfio'r sylfaen ar gyfer cyfres o arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chonsensws.

*Cam 1: Cwmpasu*

2.4 Roedd Cam 1 yn cynnwys cynnal **adolygiad pen desg o ddogfennau** i nodi unrhyw fylchau yn yr ymchwil gyfredol ac i lywio'r holiadur Delphi. Roedd hyn yn golygu adolygu dogfen ar farn arbenigwyr ar y cynnig gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn ogystal ag archwilio adolygiad tystiolaeth ar ddileu elw o ofal preswyl a maeth plant gan Cascade (Ablitt, Jimenez & Holland, 2024; Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2024).

2.5 Ar yr un pryd, datblygwyd dull cynhwysfawr o recriwtio arbenigwyr ar gyfer y dull Delphi. Mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, sefydlwyd maen prawf cymhwysedd i'r panel arbenigol. Rhoddwyd pwyslais ar recriwtio unigolion gyda phrofiad ymarferol sylweddol a/neu hanes ymchwil cadarn yn y maes. Cafwyd cysylltiadau o erthyglau cylchgronau cyhoeddedig a nodwyd yn ystod ein hadolygiad pen desg, yn ogystal â thrwy ymgysylltu â sefydliadau proffesiynol sy'n cynrychioli ymarferwyr mewn gofal cymdeithasol. Nodwyd cysylltiadau ychwanegol gan adrannau perthnasol y llywodraeth ac Awdurdodau Lleol. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru mewn sawl achos, gwahoddwyd cysylltiadau posibl wedyn i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd y panel olaf a gytunodd i gymryd rhan yn cynnwys arbenigwyr pwnc o Gymru a'r DU. Roedd hefyd yn cynnwys ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol, cynrychiolwyr o wasanaethau preswyl plant, a chynrychiolwyr o

adrannau ac asiantaethau perthnasol yng Nghymru. Rhoddir manylion am faint y sampl a'i ddadansoddiad yn y tabl isod.

**Tabl 2.1: Nifer y cyfranogwyr fesul sector a math o weithgaredd ymchwil**

| Sector | Holiadur 1 | Holiadur 2 | Grwpiau ffocws |
|---|---|---|---|
| Academia/ymchwil | 11 | 7 | 2 |
| Gofal cymdeithasol plant (Cymru) | 2 | 2 | 1 |
| Elusen | 4 | 4 | 2 |
| Awdurdod Lleol (Cymru) | 3 | 3 | 2 |
| Sefydliad y llywodraeth | 2 | 2 | 2 |
| Arall[1] | 3 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **25** | **19** | **11** |

2.6 Roedd y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn dod o bob rhan o’r DU, Cymru’n bennaf, ac yna Lloegr a’r Alban. Mae'n bwysig nodi bod rhai cyfranogwyr wedi dewis peidio â datgelu eu lleoliad neu roeddent yn cynrychioli sefydliadau sy'n weithgar mewn sawl gwlad. Ni chafodd unrhyw arbenigwyr rhyngwladol eu recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Yn ystod yr astudiaeth, bu newid yn y nifer a math o gyfranogwyr. Er enghraifft, nid oedd pedwar academydd a dau gyfranogwr ‘arall’ bellach yn rhan o Holiadur 2, o'i gymharu â Holiadur 1.

2.7 Oherwydd y nifer fach o gyfranogwyr o ALlau a gofal cymdeithasol plant yng Nghymru, nid ydym wedi nodi eu hardaloedd Awdurdod Lleol er mwyn osgoi datgelu’n ddamweiniol pwy yw’r cyfranogwyr.

*Cam 2: Holiadur 1*

2.8 Roedd Cam 2 yn ymwneud â dylunio a dosbarthu holiadur rownd gyntaf Delphi. Rhoddwyd 10 diwrnod i gyfranogwyr ymateb a chawsant eu hatgoffa er mwyn eu hannog i gymryd rhan. Llywiwyd cynnwys y cwestiynau hyn gan yr adolygiad pen desg ac ystyriaeth o nodau’r astudiaeth. Ar y cam cyntaf, defnyddiwyd cwestiynau penagored i gynhyrchu syniadau eang i'w harchwilio yn y camau dilynol. Roedd cwestiynau penagored yn hwyluso’r broses o gasglu barn amrywiol ar bob maes ymholi gan unigolion o gefndiroedd proffesiynol ac arbenigedd amrywiol, gyda chyfranogwyr yn cael eu hannog i fyfyrio ar yr olaf i ateb y cwestiynau.

[1] Roedd cyfranogwyr o dan yr opsiwn hwn yn cynrychioli cyrff cyhoeddus a sefydliadau annibynnol.

2.9 Roedd yr holiadur yn cynnwys tair rhan, gan roi mewnwelediad i wahanol agweddau ar weithrediad ac effaith bosibl ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru.

2.10 Roedd Adran 1 o’r arolwg yn gwahodd cyfranogwyr i archwilio effaith ac arwyddocâd y math o fusnes ar ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal, yn ogystal â chanlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal. Yn Adran 2, nod y cwestiynau oedd archwilio'r effeithiau cadarnhaol a negyddol a allai ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw. Anogwyd y cyfranogwyr hefyd i awgrymu mesurau ychwanegol i helpu i sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad. Roedd Adran 3 yn canolbwyntio ar effaith yr ymrwymiad, ochr yn ochr â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru, yn ogystal â chanlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc. Yn olaf, gwahoddwyd arbenigwyr i awgrymu unrhyw fesurau ychwanegol i’w cyflwyno i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal yng Nghymru, fel rhan o’r rhaglen drawsnewid ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol plant.

2.11 Dadansoddwyd yr ymatebion o'r rownd gyntaf a chawsant eu defnyddio fel sail i ail rownd holiadur Delphi. Defnyddiwyd dadansoddiad thematig i bennu’r themâu allweddol ar gyfer pob cwestiwn yn yr arolwg, gan chwilio am safbwyntiau cyffredin a thynnu sylw at unrhyw feysydd trosfwaol lle na chafwyd cytundeb. Anfonwyd copi o’r adroddiad cryno dienw at bob cyfranogwr, yn crynhoi themâu, patrymau neu dueddiadau allweddol a nodwyd mewn ymatebion ansoddol.

*Cam 3: Holiadur 2*

2.12 Roedd Cam 3 yn adeiladu ar y mewnwelediadau a gasglwyd yng Ngham 2 ac yn cynnwys ail rownd o holiadur Delphi. Gwahoddwyd arbenigwyr i fynegi eu cytundeb gan ddefnyddio graddfa Likert 5 pwynt (1= cytuno’n gryf, 2= cytuno, 3= ddim yn cytuno nac yn anghytuno, 4= anghytuno, 5= anghytuno’n gryf) i gyfres o ddatganiadau yn amlinellu effeithiau a strategaethau arwyddocaol. Roedd y datganiadau hyn wedi'u geirio'n gryf i helpu i hwyluso'r broses o feithrin consensws ac arwain at feysydd clir o gytundeb ac anghytundeb y gellid eu defnyddio i lywio'r gwaith o lunio polisïau. Oherwydd yr angen i integreiddio safbwyntiau’r holl arbenigwyr mewn datganiadau cryno, nid oedd yn bosibl ymgorffori bob naws a ddarparwyd yn atebion yr arbenigwyr yn Holiadur 1.

2.13 Yna crynhowyd yr ymatebion i Holiadur 2 i nodi meysydd o gonsensws. Yn unol â phrotocol astudio Delphi, ceir consensws os yw 70-80% o'r panel yn 'cytuno' a 'cytuno'n gryf' neu 'anghytuno' ac 'anghytuno'n gryf' â'r datganiad (e.e., Vogel et al, 2019). Tynnwyd sylw hefyd at unrhyw feysydd lle na chyrhaeddwyd consensws.

2.14 Roedd gan ymatebwyr hefyd yr opsiwn i ychwanegu sylwadau neu egluro eu hymatebion gan ddefnyddio blychau testun. Yn y bennod nesaf, nodir y mewnwelediadau neu ystyriaethau ychwanegol a godwyd gan gyfranogwyr.

*Cam 4: Trafodaethau mewn grwpiau ffocws rhithwir*

2.15 Roedd Cam 4 yn ymwneud â chynllunio a hwyluso trafodaethau ar ffurf grwpiau ffocws rhithwir (90 munud). Pwrpas y trafodaethau hyn oedd mireinio ymhellach ac adeiladu ar y mewnwelediadau a gafwyd gan arbenigwyr. I hwyluso hynny, cyflwynodd y tîm ymchwil ganfyddiadau o Holiadur 2 drwy gydol y grwpiau ffocws, gan amlygu lle y daethpwyd i gonsensws a lle na chafwyd consensws. Dilynwyd hyn gan gyfres o drafodaethau lle gofynnwyd i gyfranogwyr: i) ymchwilio ymhellach i feysydd o anghytundeb ac arlliwiau/naws, a ii) graddio effeithiau ac awgrymiadau lle cafwyd sawl maes consensws. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r wybodaeth ansoddol a gasglwyd i nodi patrymau, themâu, arlliwiau a dadleuon allweddol.

2.16 Yn nhrafodaethau dilynol y grwpiau ffocws, datblygwyd disgrifyddion penodol i ddangos lefel y cytundeb ymhlith cyfranogwyr yn y lleoliadau hyn. Defnyddiwyd ymadroddion fel 'ychydig' neu 'cwpl' i ddangos cytundeb ymhlith nifer fach o gyfranogwyr. Mae'r term 'lluosog' wedi cael ei ddefnyddio pan oedd cytundeb ehangach ymhlith cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws. Defnyddiwyd ymadrodd 'un cyfranogwr' neu 'gyfranogwr' i nodi datganiadau unigol a wnaed gan gyfranogwyr unigol. Mae'r dull hwn yn sicrhau eglurder a chywirdeb pan yn cynrychioli safbwyntiau cyfranogwyr wrth ddadansoddi a thrafod y grwpiau ffocws.

# 3. Canfyddiadau

**Effeithiau darpariaeth er-elw ar ofal cymdeithasol plant**

3.1 Mae'r adran hon yn archwilio ymatebion i gwestiynau yn Adran 1 a oedd yn ymchwilio i effaith darpariaeth er-elw ar ofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Gofynnwyd i ymatebwyr drafod effaith y math o fusnes ar ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal a chanlyniadau llesiant ynghyd ag arwyddocâd y math o fusnes o'i gymharu â ffactorau eraill.

*Canfyddiadau o Holiadur 1*

3.2 Yn gyntaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod effaith y math o fusnes ar ansawdd a natur darpariaeth gofal a chanlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

3.3 Thema allweddol oedd y **gwahaniaeth canfyddedig mewn ansawdd gofal rhwng darparwyr er-elw a nid-er-elw**. Daeth pryderon i'r amlwg ynghylch yr ansawdd gofal is canfyddedig a'r achosion posibl o dorri rheoliadau mewn darpariaeth er-elw. Ar y llaw arall, roedd darpariaeth nid-er-elw yn cael ei hystyried yn fwy plentyn-ganolog, gan gynnig gwell cymorth, hyfforddiant a mynediad at wasanaethau arbenigol. Credwyd bod hyn yn cyfrannu at well canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc. Thema allweddol arall oedd **effaith negyddol bosibl darpariaeth er-elw ar leoliadau daearyddol**. Beirniadwyd darparwyr er-elw am flaenoriaethu ardaloedd ag eiddo fforddiadwy dros anghenion plant, gan effeithio'n negyddol ar eu llesiant. Yn ogystal, roedd lleoliadau trwy ddarpariaeth er-elw yn cael eu gweld yn fwy aml yn ddaearyddol bell oddi wrth rwydweithiau cymdeithasol presennol plant a gwasanaethau cymorth hanfodol. Deallwyd bod yr unigedd hwn yn amharu ar lesiant a datblygiad cyffredinol plant

3.4 Roedd **ystyriaethau ariannol** hefyd yn thema a gododd dro ar ôl tro. Nododd rhai cyfranogwyr fod darpariaeth nid-er-elw yn ail-fuddsoddi elw i ansawdd gwasanaeth, gan wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, tra dywedwyd bod elw o ddarpariaeth er-elw yn cael ei dynnu o wasanaethau, gan arwain at ganlyniadau gwaeth i blant a phobl ifanc. Mewn cyferbyniad, dadleuodd eraill fod darparwyr er-elw hefyd yn ail-fuddsoddi eu helw mewn ansawdd a darpariaeth gwasanaeth, gydag adnoddau a hyblygrwydd o ran cefnogaeth, hyfforddiant a gwasanaethau therapiwtig. Awgrymwyd hefyd y gallai cyfyngiadau ariannol a wynebir gan ALlau arwain at lai o wasanaethau ac argaeledd staff mewn lleoliadau gofal nid-er-elw, a allai effeithio'n andwyol ar ansawdd y gofal.

3.5 Y tu hwnt i’r tair thema hyn, pwysleisiodd ymatebwyr mai cyfyngedig oedd y gwaith ymchwil sy’n cymharu ansawdd canlyniadau gofal a llesiant ar draws gwahanol fathau o fusnesau darparwyr yng Nghymru. Pwysleisiodd rhai nad oedd yr amrywiad yn ansawdd y canlyniadau gofal a llesiant i blant a phobl ifanc i’w briodoli i’r math o fusnes yn unig. Tynnodd eraill sylw at yr amrywiad canfyddedig, yn hytrach na’r amrywiad gwirioneddol, yn y ddarpariaeth nid-er-elw a’r ddarpariaeth er-elw o ran ansawdd gofal a chanlyniadau llesiant.

3.6 Yn dilyn y set gyntaf o gwestiynau, gofynnwyd wedyn i’r ymatebwyr drafod arwyddocâd cymharol y math o fusnes o’i gymharu â ffactorau eraill sy’n dylanwadu ar ganlyniadau ansawdd gofal a llesiant. Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd **arwyddocâd uchel y math o fusnes**. Soniodd rhai cyfranogwyr am oblygiadau negyddol sy’n gysylltiedig â'r ddarpariaeth er-elw, gan gynnwys mwy o achosion o dorri rheoliadau a lleoliadau pell yn ddaearyddol. Roedd y materion hyn yn gysylltiedig yn gyffredinol â chanlyniadau gwaeth ar lefelau'r plentyn, y darparwr a'r ALl. I’r gwrthwyneb, roedd cyfranogwyr eraill yn gweld darparwyr er-elw yn gadarnhaol, gan gredu eu bod yn cynnig gwasanaethau mwy arbenigol ar gyfer anghenion penodol ac yn wynebu llai o gyfyngiadau ariannol o’i gymharu â darparwyr nid-er-elw. Roedd y safbwynt hwn yn awgrymu y gallai darparwyr er-elw o bosibl wella ansawdd gofal a chanlyniadau llesiant.

3.7 I ymatebwyr eraill, **dim ond rhannol oedd arwyddocâd y math o fusnes**. Roedd y farn yn amrywio ynghylch a oedd y math o fusnes yn fwy, neu'n llai, arwyddocaol ar gyfer darpariaeth ansawdd gofal na natur y ddarpariaeth gofal. Awgrymwyd bod amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y math o fusnes, lleoliad y darpariaethau, ac ansawdd y staff, yn cydweithio i effeithio ar ansawdd a natur y gofal a ddarperir. Yn olaf, pwysleisiwyd **arwyddocâd ffactorau eraill**. Roedd rhai cyfranogwyr yn dadlau nad oedd fawr o dystiolaeth, os o gwbl, i gysylltu’r math o fusnes yn uniongyrchol â chanlyniadau ansawdd gofal neu lesiant. Credai rhai bod ffactorau megis ansawdd staff, gwerth am arian neu ‘ddylanwadau allanol’ generig eraill yn chwarae rhan fwy arwyddocaol mewn pennu ansawdd gofal a chanlyniadau llesiant

*Canfyddiadau o Holiadur 2*

3.8 Mae’r tablau canlynol yn amlygu meysydd o gonsensws a meysydd lle na chafwyd consensws ynghylch effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant. [2] Mae canran gyfun y cytundeb neu’r anghytundeb hefyd yn cael ei darparu o

[2] Mae'r canlyniadau wedi'u talgrynnu i un lle degol, felly nid yw'r rhifau bob amser yn adio i 100%.

dan bob datganiad. Mae'r datganiadau byr a restrir yn y tablau yn seiliedig ar bwyntiau allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad thematig o ymatebion i Holiadur 1.

**Tabl 3.1: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant**

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae amrywiaeth yn ansawdd y gofal yn y ddarpariaeth nid-er-elw a'r ddarpariaeth er-elw. | 63.2% | 31.6% | 5.3% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **94.8%** | | | | |
| Gall cyfyngiadau ariannol mewn Awdurdodau Lleol arwain at wasanaethau annigonol a phrinder staff mewn gofal nid-er-elw. | 47.4% | 26.3% | 10.5% | 15.8% | 0% |
| **Cyfun** | **73.7%** | | | **15.8%** | |

**Tabl 3.2: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant**

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mae darpariaeth er-elw yn darparu gofal o ansawdd is.** | 10.5% | 21.1% | 36.8% | 15.8% | 15.8% |
| **Cyfun** | **31.6%** | | | **31.6%** | |
| **Gall darpariaeth er-elw arwain at fwy o achosion o dorri rheoliadau.** | 15.8 % | 26.3% | 26.3% | 26.3% | 5.3% |
| **Cyfun** | **42.1%** | | | **31.6%** | |
| Ystyrir bod darpariaeth nid-er-elw yn fwy plentyn-ganolog ac yn fwy | 26.3% | 36.8% | 15.8% | 21.1% | 0% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ymatebol i anghenion unigol. | | | | | |
| **Cyfun** | **63.1%** | | | **21.1%** | |
| Mae darpariaeth er-elw yn blaenoriaethu lleoliadau mewn eiddo cost-effeithiol ac ardaloedd daearyddol dros anghenion plant. | 31.6% | 31.6% | 15.8% | 21.1% | 0% |
| **Cyfun** | **63.2%** | | | **21.1%** | |
| Tra bod elw gan ddarparwyr er-elw yn cael ei ddargyfeirio i fannau eraill, mae arian dros ben gan ddarparwyr nid-er-elw yn cael ei ail-fuddsoddi i wella ansawdd gwasanaethau. | 15.8% | 36.8% | 26.3% | 21.1% | 0% |
| **Cyfun** | **52.6%** | | | **21.1%** | |

*Mewnwelediadau pellach o drafodaethau grwpiau ffocws*

3.9 Trafodwyd y datganiadau gyda diffyg consensws amlwg (a amlygir mewn print trwm yn y tabl uchod) yn y grwpiau ffocws. I'r ddau ddatganiad, tynnodd cyfranogwyr lluosog sylw at yr angen i **wahaniaethu rhwng canfyddiad a realiti**. Er enghraifft, galwodd rhai cyfranogwyr am ystyried canlyniadau arolygu i gadarnhau honiadau ynghylch ansawdd gofal neu achosion o dorri rheoliadau. Gan mai dim ond ychydig o dystiolaeth gadarn sydd ar gael o arolygiadau, dadleuwyd y byddai trafodaethau ynghylch ansawdd darpariaeth er-elw a nid-er-elw yn parhau i fod yn ddamcaniaethol, gan arwain at safbwyntiau mwy amrywiol. Trafododd cwpl o gyfranogwyr y pryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau mewn astudiaethau ar ansawdd gofal a gomisiynwyd gan ddarparwyr er-elw. Roedd hyn yn tanlinellu pwysigrwydd mesurau gwrthrychol mwy cadarn i lywio trafodaethau ar ansawdd gofal a thorri rheoliadau. Deellir bod y modd y mae amrywiadau a rheoliadau yn cael eu gorfodi a'u hadrodd yn cymhlethu ymhellach yr asesiad o gydymffurfiaeth reoleiddiol ymhlith gwahanol fathau o ddarparwyr.

3.10 Wrth ystyried y datganiadau mewn print trwm, rhybuddiodd nifer o gyfranogwyr yn erbyn **cyffredinoli hollgynhwysfawr**, gan nodi enghreifftiau o ofal ansawdd uchel ac ansawdd gwael ar draws lleoliadau er-elw a nid-er-elw, a gwahaniaethau rhwng

gofal maeth a gofal preswyl, gan awgrymu bod ffactorau y tu hwnt i elw yn cyfrannu at ansawdd gofal. Fodd bynnag, cydnabu un cyfranogwr fod cyffredinoli yn angenrheidiol i lywio penderfyniadau polisi.

3.11 Roedd rhai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn parhau i fod â **safbwyntiau cryf, yn gadarnhaol a negyddol, tuag at ddarpariaeth er-elw**, gan egluro ymhellach yr ymatebion amrywiol i'r datganiadau arfaethedig. Parhaodd un cyfranogwr yn **feirniadol** o gymhellion ariannol canfyddedig ar draul anghenion plant. I'r gwrthwyneb, nododd cyfranogwr arall **gyd-destun hanesyddol darpariaeth gofal yn y DU**, gan dynnu sylw at faterion hirsefydlog o ran sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol ar draws pob math o ddarparwr, waeth beth fo'i statws elw. Yn ogystal, nododd un cyfranogwr achosion lle'r oedd plant yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi, a hyd yn oed y tu allan i Gymru (e.e., yn Lloegr), oherwydd diffyg opsiynau lleol addas, gan danlinellu materion systemig sy'n mynd y tu hwnt i statws elw.

## Effeithiau posibl gweithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

3.12 Mae'r adran hon yn archwilio ymatebion i gwestiynau yn Adran 2 a oedd yn ymchwilio i effeithiau posibl dileu darpariaeth er-elw. Gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod yr effeithiau cadarnhaol, mesurau ychwanegol i sicrhau effeithiau cadarnhaol, ynghyd ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol a mesurau i liniaru'r rhain.

### Effeithiau cadarnhaol

*Canfyddiadau o Holiadur 1: Effeithiau cadarnhaol posibl*

3.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod yr effeithiau cadarnhaol a allai ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw. Thema allweddol ar draws yr ymatebion oedd **gwell ansawdd gofal**. Y gobaith oedd y byddai dileu elw yn cymell darparwyr i flaenoriaethu ansawdd gofal dros elw ariannol. Disgrifiwyd hyn fel rhywbeth a fyddai'n arwain at fwy o fuddsoddiad mewn hyrwyddo a datblygu gwasanaethau mewnol, gan wella ansawdd gwasanaethau. Yn ogystal, deallwyd bod dileu elw yn arwain at ofal mwy cost-effeithiol, gan wella hygyrchedd gwasanaethau. Daeth **gofal tecach** hefyd i'r amlwg ar draws ymatebion y cyfranogwyr. Y gobaith oedd sicrhau cysondeb cyffredinol ymhlith darparwyr i sicrhau dull safonol o ddarparu gwasanaethau, gan hybu tegwch. Ymhellach, y gobaith oedd y byddai dileu darpariaeth er-elw yn annog cydweithredu rhwng darparwyr, gan feithrin amgylchedd gofal mwy cydweithredol

3.14 Hefyd, trafodwyd **lleoliadau nes at y cartref**. Credai rhai cyfranogwyr y byddai plant yn fwy tebygol o aros yn nes at eu cartrefi a'u cymunedau o ganlyniad i ddileu elw. Disgrifiwyd hyn fel hwyluso gwell cysylltiadau â gwasanaethau a sefydliadau lleol yn ogystal â hyrwyddo perthnasoedd teuluol mwy sefydlog a chefnogol. Effaith gadarnhaol ychwanegol a grybwyllwyd yn aml oedd **gwell darpariaeth cymorth arbenigol**. Nodwyd y gallai darparwyr arbenigol ail-fuddsoddi elw mewn gwasanaethau neu addasu eu modelau busnes i sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i blant ag anghenion cymhleth, gan wella'r ddarpariaeth gyffredinol o gymorth. Yn ogystal, pwysleisiodd y cyfranogwyr y byddai dileu darpariaeth er-elw yn gwella'r **canfyddiad o'r sector gofal** ymhlith plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a'r cyhoedd yn ehangach. Byddai pryderon ynghylch darparwyr er-elw yn blaenoriaethu budd ariannol dros ansawdd gofal yn cael sylw, gan wella ymddiriedaeth a hyder yn y sector

3.15 Nododd ymatebwyr eraill **nad oedd unrhyw gydberthynas, neu gydberthynas gyfyngedig yn unig**, rhwng y math o fusnes ac ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal ac effeithiau ar lesiant. Felly, efallai na fyddai dileu darpariaeth er-elw yn newid yr effeithiau hyn yn sylweddol.

*Canfyddiadau o Holiadur 2: Effeithiau cadarnhaol posibl*

3.16 Mae'r tablau canlynol yn amlygu meysydd o gonsensws a meysydd lle na chafwyd consensws ynghylch effeithiau cadarnhaol dileu darpariaeth er-elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae canran gyfun y cytundeb neu'r anghytundeb hefyd yn cael ei darparu o dan bob datganiad. Mae'r datganiadau byr a restrir yn y tablau yn seiliedig ar bwyntiau allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad thematig o ymatebion i Holiadur 1.

**Tabl 3.3: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effeithiau cadarnhaol posibl dileu darpariaeth er-elw**

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Gall dileu darpariaeth er-elw gymell darparwyr i flaenoriaethu ansawdd gofal yn hytrach na budd ariannol, gan arwain at wasanaethau o ansawdd gwell. | 26.3% | 52.6% | 15.8% | 5.3% | 0% |
| **Cyfun** | **78.9%** | | | **5.3%** | |

**Tabl 3.4: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effeithiau cadarnhaol posibl dileu darpariaeth er-elw**

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Neither Cytuno nor Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Bydd dileu darpariaeth er-elw yn sicrhau dull mwy safonol o ddarparu gwasanaethau. | 15.8% | 52.6% | 15.8% | 10.5% | 5.3% |
| **Cyfun** | **68.4%** | | | **15.8%** | |
| Bydd dileu darpariaeth er-elw yn caniatáu i blant aros yn agosach at eu cartrefi a'u cymunedau. | 26.3 % | 26.3% | 26.3% | 21.1% | 0% |
| **Cyfun** | **52.6%** | | | **21.1%** | |
| **Bydd dileu elw yn arwain darparwyr i ail-fuddsoddi'r arian dros ben yn ôl mewn gwasanaethau, gan sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i blant ag anghenion cymhleth.** | 15.8% | 21.1% | 42.1% | 5.3% | 15.8% |
| **Cyfun** | **36.9%** | | | **21.1%** | |
| **Nid oes unrhyw gydberthynas, neu mae cydberthynas gyfyngedig yn unig, rhwng y math o fusnes ac ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal, yn ogystal â chanlyniadau llesiant.** | 5.3% | 42.1% | 15.8% | 10.5% | 26.3% |
| **Cyfun** | **47.4%** | | | **36.8%** | |

*Mewnwelediadau pellach o drafodaethau grwpiau ffocws: Effeithiau cadarnhaol posibl*

3.17 Roedd trafodaethau yn y grŵp ffocws yn canolbwyntio ar y datganiad (a amlygir mewn print trwm yn y tabl uchod) i ddileu elw darparwyr gofal ac ail-fuddsoddi'r arian hwn mewn gwasanaethau arbenigol. Cytunai nifer o gyfranogwyr bod diffyg consensws ynghylch y cynnig oherwydd ei **natur ddamcaniaethol**, a oedd yn caniatáu senarios credadwy amrywiol, gan arwain at safbwyntiau gwahanol.

3.18 Er bod un cyfranogwr wedi mynegi optimistiaeth gref ynghylch y tebygolrwydd o ailddyrannu arian i well cynllunio a gwella gwasanaethau arbenigol, roedd rhai yn gwrthwynebu'r syniad, yn enwedig y rhai oedd yn cynrychioli **darparwyr er-elw llai**. Nodwyd pryderon gan un cyfranogwr ynghylch y newid i fodel sy'n seiliedig ar elusen gan y byddai'n rhaid i berchnogion gynyddu cyflogau, gan arwain o bosibl at gostau uwch am wasanaethau a llai o fuddsoddiad mewn darpariaethau arbenigol. Er enghraifft, deallwyd bod darparwr bach gyda pherchnogion lluosog sy'n cymryd difidendau o'r busnes ar hyn o bryd yn wynebu heriau ariannol sylweddol oherwydd rheolau treth sy'n ffafrio difidendau dros gyflogau.

3.19 Tynnodd cyfranogwr arall sylw at **safbwyntiau a phrofiadau cyfredol awdurdodau lleol**. Pe bai dileu elw yn gwarantu gwell gwasanaethau arbenigol, nodwyd y byddai ALlau eisoes wedi mabwysiadu'r mesurau hyn. [3] Mae'r sylw hwn yn nodi cred gyffredinol ymhlith cyfranogwyr bod heriau presennol yn amlochrog ac na ellir mynd i'r afael â nhw trwy ddileu elw yn unig.

3.20 Er gwaethaf y gwahaniaeth barn, roedd rhywfaint o gytundeb ynghylch yr **angen am atebion ychwanegol neu amgen** i wella mynediad at wasanaethau arbenigol. Dadleuodd un cyfranogwr fod y datrysiad arfaethedig o ddileu elw yn rhy eang a galwodd am ddull wedi'i dargedu i fynd i'r afael ag argaeledd gwasanaethau arbenigol. Yn ogystal, roedd cefnogaeth ymhlith rhai cyfranogwyr i strategaethau arloesol i ddatblygu cymorth arbenigol fel 'cyllidebau cyfun' lle mae ALlau yn cydweithio â'r sectorau iechyd ac addysg, gan gyfuno eu hadnoddau. Deallwyd bod y dull hwn yn symud ffocws oddi wrth gyfrifoldebau ariannol tuag at bwyslais unedig ar ddiwallu anghenion amrywiol plant.

3.21 Roedd y trafodaethau ynghylch yr ail ddatganiad o ddiddordeb, "Nid oes unrhyw gydberthynas, neu mae cydberthynas gyfyngedig yn unig, rhwng y math o fusnes ac ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal, yn ogystal â chanlyniadau llesiant", yn ailadrodd y mewnwelediadau a amlinellwyd uchod yn Adran 1. Er enghraifft, bu trafodaethau ymhlith cyfranogwyr lluosog ynghylch yr **angen i wahaniaethu rhwng canfyddiad a realiti** a'r alwad am fwy o sylfaen dystiolaeth ar yr effaith ar ansawdd a natur darpariaeth gofal a chanlyniadau llesiant.

[3] Rhoddwyd yr esboniad hwn yn y grwpiau ffocws. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid yw'n bosibl cael eglurhad pellach ynglŷn ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn hon.

**Effeithiau negyddol**

*Canfyddiadau o Holiadur 1: Effeithiau negyddol posibl*

3.22 Mae'r adran hon yn archwilio ymatebion i gwestiynau yn Adran 2 Holiadur 1 a oedd yn ymchwilio i'r effeithiau negyddol a allai ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw.

3.23 Roedd **prinder lleoliadau a gwasanaethau** yn thema a gododd dro ar ôl tro ar draws yr ymatebion. Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch y posibilrwydd o gau ac adleoli darparwyr er-elw, gan arwain at lai o ddarpariaeth gwasanaeth a dewisiadau lleoli cyfyngedig i blant a phobl ifanc.[4] Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd y posibilrwydd o ostyngiad mewn gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth ochr yn ochr â gostyngiad mewn gwasanaethau cofleidiol, gan gynnwys addysg a therapïau ar y safle, a ystyriwyd yn hanfodol i gefnogi'r plant hyn. Deallwyd bod gan ddarparwyr er-elw yr adnoddau a'r seilwaith i gynnig gofal cynhwysfawr i blant ag anghenion cymhleth.

3.24 Yn ogystal, mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch **canlyniadau gwaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**. Roedd pryderon cynyddol y gallai plant gael eu lleoli mewn gwasanaethau anghofrestredig neu gyda darparwyr heb yr offer i ddiwallu eu hanghenion penodol. Ymhellach, deallwyd bod cau ac adleoli darparwyr heb ei gynllunio yn amharu ar fywydau plant drwy eu gwahanu oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth, gan gynnwys teulu, ffrindiau a chymunedau. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o gynnydd mewn costau dros dro yn y lleoliadau presennol cyn gweithredu'r polisi'n llawn. At hynny, pwysleisiodd ymatebwyr y posibilrwydd o leoedd gwag mewn cartrefi gofal lleol, a allai arwain at danddefnyddio adnoddau.[5] Nodwyd **heriau i ALlau** o ran sicrhau lleoliadau addas i blant a phobl ifanc fel thema allweddol. Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch gostyngiad yn y dewis a hyblygrwydd i sicrhau lleoliadau priodol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch costau cynyddol lleoliadau, a allai roi pwysau ar gyllidebau ac o bosibl atal mentrau datblygu eraill, megis cynlluniau ymyrraeth gynnar, oherwydd adnoddau prin. Mae'n bosibl y gallai darparwyr presennol gynyddu eu costau wythnosol i adennill neu gyflawni'r enillion disgwyliedig cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym. Gwelwyd bod hyn oherwydd ansicrwydd

---

[4] Fframiwyd y datganiadau hyn ar wahân gan ymatebwyr yn Holiadur 1 ond fe'u dadansoddwyd gyda'i gilydd er eglurder.

[5] Nodwyd y datganiad hwn yn ystod y dadansoddiad o Holiadur 1. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid yw'n bosibl ei esbonio ymhellach.

ynghylch costau trosi i fodelau newydd nid-er-elw neu gynlluniau i dynnu'n ôl o'r farchnad.

3.25 Thema ychwanegol a gododd dro ar ôl tro oedd **heriau i'r gweithlu staff**. Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld colledion staff posibl o ddarpariaeth er-elw, yn enwedig o fewn asiantaethau maethu annibynnol. Nodwyd pryderon ynghylch dieithrwch posibl staff presennol a gofalwyr maeth mewn darpariaeth er-elw drwy gwestiynu eu cymhellion fel rhai 'sy'n cael eu gyrru gan elw'. Yn achos y themâu ychwanegol, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd mesurau ategol i fynd i'r afael â chanlyniadau anfwriadol. Pwysleisiwyd hefyd yr angen am fwy o fanylion am yr ymrwymiad i ddarparu ymatebion cynhwysfawr.

*Canfyddiadau o Holiadur 2: Effeithiau negyddol posibl*

3.26 Mae'r tablau canlynol yn amlygu meysydd lle na chafwyd consensws ynghylch yr effeithiau negyddol a allai ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw. **Nid oedd unrhyw feysydd o gonsensws ynghylch effeithiau negyddol yr ymrwymiad**. Mae canran gyfun y cytundeb neu'r anghytundeb hefyd yn cael ei ddarparu o dan bob datganiad. Mae'r datganiadau byr a restrir yn y tabl yn seiliedig ar bwyntiau allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad thematig o ymatebion i Holiadur 1.

**Tabl 3.5: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effeithiau negyddol posibl dileu darpariaeth er-elw**

Bydd gweithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw yn arwain at …

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Cau ac adleoli darparwyr er-elw, a fydd yn arwain at lai o ddarpariaeth o wasanaethau ac argaeledd lleoliadau yng Nghymru yn y tymor byr. | 31.6% | 36.8% | 21.1% | 10.5% | 0% |
| **Cyfun** | **68.4%** | | | **10.5%** | |
| Colli staff a gofalwyr maeth sy'n ymwneud â darpariaeth er-elw yng Nghymru ar hyn o bryd. | 15.8 % | 26.3% | 36.8% | 15.8% | 5.3% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfun** | **42.1%** | | | **21.1%** | |
| Gostyngiad arbennig mewn gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth. | 21.1% | 26.3% | 15.8% | 31.6% | 5.3% |
| **Cyfun** | **47.4%** | | | **36.9%** | |
| **Mwy o blant yn byw mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.** | 5.3% | 26.3% | 31.6% | 26.3% | 10.5% |
| **Cyfun** | **31.6%** | | | **36.8%** | |
| Cynnydd dros dro mewn costau lleoliadau presennol cyn gweithredu'r ymrwymiad. | 15.8% | 31.6% | 36.8% | 10.5% | 5.3% |
| **Cyfun** | **47.4%** | | | **15.8%** | |
| Cynnydd tymor byr mewn costau lleoliadau, gan arwain at bwysau cyllidebol ar Awdurdodau Lleol. | 21.1% | 36.8% | 21.1% | 15.8% | 5.3% |
| **Cyfun** | **57.9%** | | | **21.1%** | |
| Cynnydd tymor hir mewn costau lleoliadau, gan arwain at bwysau cyllidebol ar Awdurdodau Lleol. | 5.3% | 10.5% | 36.8% | 26.3% | 21.1% |
| **Cyfun** | **15.8%** | | | **47.4%** | |
| Llai o ddewis a hyblygrwydd wrth sicrhau lleoliadau priodol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. | 15.8% | 21.1% | 15.8% | 42.1% | 5.3% |
| **Cyfun** | **36.9%** | | | **47.4%** | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Posibilrwydd atal mentrau datblygu eraill (h.y. gwasanaethau ymyrraeth gynnar) oherwydd adnoddau prin.** | 10.5% | 31.6% | 15.8% | 26.3% | 15.8% |
| **Cyfun** | **42.1%** | | | **42.1%** | |

*Mewnwelediadau pellach o drafodaethau grwpiau ffocws: Effeithiau negyddol posibl*

3.27 Trafodwyd datganiadau gyda diffyg consensws amlwg (a amlygir mewn print trwm yn y tabl uchod) mewn grwpiau ffocws. Mynegodd yr ymatebwyr safbwyntiau gwahanol o ran yr effaith negyddol bosibl pe bai mwy o blant yn byw mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru,.

3.28 Ar draws cyfranogwyr lluosog y grwpiau ffocws, roedd **ansicrwydd eang** ynghylch effaith bosibl yr ymrwymiad o ystyried nad oedd cynsail ar gyfer y newid polisi hwn. Pwysleisiodd ymatebwyr lluosog bwysigrwydd trefniadau pontio a mecanweithiau cymorth wrth bennu effaith yr ymrwymiad ar nifer y plant mewn lleoliadau anghofrestredig. Yn y modd hwn, nodwyd pryderon ynghylch y tebygolrwydd y byddai mwy o blant yn byw mewn lleoliadau anghofrestredig pe na bai adnoddau digonol a chynlluniau amgen yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, roedd galwadau am gyfnod pontio digon hir i hwyluso'r broses o integreiddio'r newid ac o bosibl liniaru'r angen am fwy o leoliadau anghofrestredig.

3.29 I'r gwrthwyneb, mynegodd rhai cyfranogwyr anghytundeb cryf â'r datganiad. Dadleuwyd bod **gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru** ledled Cymru yn symptomatig o broblem ehangach y tu hwnt i'r agenda elw. Er gwaethaf eu canfyddiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth sydd ar gael, nododd cwpl o gyfranogwyr fod gwasanaethau presennol yn aml yn methu â diwallu anghenion cymhleth plant mewn gofal, gan arwain at i blant gael eu lleoli mewn lleoliadau anghofrestredig neu heb eu rheoleiddio. Roedd y persbectif hwn yn tanlinellu cydnabyddiaeth yr arbenigwyr o arwyddocâd mynd i'r afael ag ansawdd a phriodoldeb y lleoliadau sydd ar gael.

3.30 Gan feddwl y tu hwnt i'r ymrwymiad, parhaodd trafodaethau mewn grwpiau ffocws i archwilio **materion systemig ehangach**. Er enghraifft, cwestiynodd un neu ddau o gyfranogwyr a oedd angen fframweithiau rheoleiddio cyfredol, a pha mor effeithiol

oeddent. Mynegwyd pryder ynghylch gor-reoleiddio gan un cyfranogwr, gydag awgrymiadau y gallai rheolau llym gyfrannu’n anfwriadol at gynnydd mewn lleoliadau anghofrestredig. Tynnodd y cyfranogwr hwn sylw at enghreifftiau lle'r oedd cartrefi a ddynodwyd i'w cofrestru yn cael eu hystyried yn annigonol oherwydd cyfyngiadau rheoleiddio. Er enghraifft, canfuwyd nad oedd digon o ystafelloedd mewn rhai cartrefi a neilltuwyd ar gyfer cofrestru, gan arwain at gwestiynau ynghylch addasrwydd cartrefi o'r fath ar gyfer lletya plant. Ysgogodd hyn fyfyrdodau ar ganlyniadau anfwriadol polisïau rheoleiddio.

3.31 Daeth diffyg consensws hefyd i’r amlwg ynghylch yr ail ddatganiad mewn print trwm – y byddai dileu darpariaeth er-elw yn arwain at oedi posibl gyda mentrau datblygu eraill o fewn y gwasanaeth plant. Mewn grwpiau ffocws, mynegodd cwpl o gyfranogwyr anghytundeb llwyr â’r datganiad, gan bwysleisio **problemau tanariannu presennol** mentrau datblygu eraill, yn enwedig gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Pwysleisiwyd fod y broblem hirsefydlog hon wedi gwaethygu dros amser ac nad oedd felly i'w phriodoli'n llwyr i'r posibilrwydd o gael gwared â darparwyr er-elw. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn anghytuno â'r datganiad, gan bwysleisio pwysigrwydd edrych ar ddileu elw o ddarpariaeth gofal fel rhan o **strategaeth ehangach**. Pwysleisiodd cwpl o bobl hefyd bwysigrwydd cydnabod y llu o fesurau sy’n cael eu gweithredu ar yr un pryd gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd a chysondeb gofal i blant ar draws awdurdodau lleol

3.32 Mabwysiadodd cwpl o ymatebwyr safiad mwy niwtral, gydag un cyfranogwr yn tynnu sylw at **flaenoriaethau unigol ALlau** a’u cynlluniau hirdymor. Roeddent yn awgrymu y byddai effaith dileu darpariaeth er-elw ar fentrau datblygu yn amrywio, yn dibynnu ar flaenoriaethau penodol pob ALl a strategaethau dyrannu adnoddau. Er bod rhai yn cydnabod y manteision posibl o bontio i ddileu elw, mynegwyd hefyd fod angen gofal wrth edrych ar y costau a’r cymhlethdodau sy’n gysylltiedig â’r gweithredu.

3.33 Roedd cwpl o’r cyfranogwyr yn cytuno â’r datganiad, gan bwysleisio effaith yr ymrwymiad ar eu gallu rheoli presennol ac adnoddau’r prosiect. Nododd un cyfranogwr fod **amser ac adnoddau sylweddol** eisoes wedi’u neilltuo i’r fenter hon, gan ddargyfeirio sylw ac adnoddau oddi wrth brosiectau datblygu pwysig eraill mewn gwasanaethau plant. At hynny, nodwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o **gywasgu adnoddau ar gyfer gwasanaethau ataliol o fewn ALlau**, sef y rhai cyntaf yn aml i gael eu torri yn ystod cyfyngiadau cyllidebol. Pwysleisiodd rhai

cyfranogwyr bwysigrwydd diogelu buddsoddiadau mewn gwasanaethau ataliol i sicrhau llesiant cyffredinol plant a theuluoedd.

**Mesurau ychwanegol**

*Canfyddiadau o Holiadur 1: Mesurau ychwanegol i sicrhau effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol*

3.34 Gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod y mesurau posibl i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru i **sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol** sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad..

3.35 Pwysleisiwyd yr angen am **arweiniad a chymorth cynhwysfawr** yn ystod y cyfnod pontio. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni hyfforddi a bwrsarïau i hwyluso'r broses addasu i weithwyr gofal preswyl proffesiynol. At hynny, galwodd ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch eithriadau i ddeddfwriaeth. Roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen am gyfathrebu mwy tryloyw ynghylch y broses o fonitro ansawdd darpariaeth lleoliadau awdurdodau lleol o dan y trefniadau newydd. Ystyriwyd bod hyn yn allweddol i feithrin dealltwriaeth a chydymffurfiaeth ymhlith rhanddeiliaid. Yn ogystal, roedd pwyslais ar yr angen i feithrin mwy o gyfathrebu a chydweithio ymhlith yr holl bartïon sy'n ymwneud â'r pontio er mwyn sicrhau gweithrediad llyfn ac effeithiol.

3.36 Daeth **cymorth ariannol** i'r amlwg hefyd fel thema a gododd dro ar ôl tro. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd dyrannu cyllid digonol ar gyfer buddsoddi mewn darpariaeth nid-er-elw, gan bwysleisio'r angen am adnoddau wedi'u neilltuo i hyfforddi staff a datblygu seilwaith. At hynny, awgrymodd ymatebwyr ddarparu cymhellion ariannol, gan gynnwys gostyngiadau treth, grantiau a chymorthdaliadau i gymell darparwyr i drosglwyddo i fodelau nid-er-elw, gan hyrwyddo mabwysiadu'r trefniadau newydd yn eang wedi hynny.

3.37 Yn ogystal â gwell cyfathrebu a chymorth ariannol, cafwyd galwadau am **weithredu mentrau ychwanegol** yn gysylltiedig â'r ymrwymiad. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys cynnal gwerthusiadau rheolaidd i fonitro cynnydd a nodi meysydd i'w gwella, gan hwyluso mireinio parhaus y broses bontio. At hynny, galwodd ymatebwyr am weithredu mesurau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar gyda'r nod o leihau'r straen ar leoliadau yn y dyfodol a mynd i'r afael â materion yn rhagweithiol. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd blaenoriaethu'r ddarpariaeth i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND). Galwodd ymatebwyr am ymrwymiad i brosesau a darpariaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan bwysleisio pwysigrwydd rhoi lle blaenllaw i lesiant a buddiannau gorau plant wrth wneud penderfyniadau. Yn ogystal, amlygwyd yr angen am ymyrraeth ragweithiol

gan Lywodraeth Cymru i reoli anghydbwysedd o ran galw a chyflenwad ar draws awdurdodau lleol. Yn olaf, cafwyd galwadau i ymestyn y cyfnod pontio i ganiatáu gweithredu'r fframwaith newydd yn fwy llyfn ac yn fwy graddol.

3.38 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi unrhyw fesurau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i **liniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol**.

3.39 Daeth **gwell cyfathrebu** i'r amlwg fel awgrym a gododd dro ar ôl tro. Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd mwy o gyfathrebu â darparwyr er-elw presennol i egluro goblygiadau'r ymrwymiad a sicrhau proses bontio ddidrafferth. Yn ogystal, roedd galwadau am well cyfathrebu â phlant a phobl ifanc i'w hysbysu am y newidiadau sydd ar y gweill, a rhoi sicrwydd ynghylch rheoli unrhyw newidiadau. Cafwyd awgrymiadau hefyd ynghylch rhoi diweddariadau mwy rheolaidd i'r holl randdeiliaid i'w hysbysu am gynnydd a datblygiadau yn ystod y cyfnod pontio

3.40 Thema allweddol ychwanegol ar draws yr ymatebion oedd **gwahanol farn ynghylch amserlenni gweithredu**. Er bod rhai am osgoi oedi wrth weithredu'r ymrwymiadau, awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid addasu'r amserlenni gweithredu er mwyn caniatáu cyfnod pontio mwy graddol i leihau aflonyddwch. At hynny, roedd galwadau ar i Lywodraeth Cymru ystyried amserlenni unigol i atal symud plant dan orfodaeth a sicrhau dull gweithredu wedi'i deilwra.

3.41 Soniwyd yn aml hefyd am **gydweithio** ar draws yr ymatebion. Galwodd yr ymatebwyr am fwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i gydlynu'r broses o gyflenwi darpariaeth arbenigol a gwneud y gorau o ddyrannu adnoddau. Yn ogystal, awgrymwyd mwy o gydweithio i gefnogi darparwyr i drosglwyddo i fodelau nid-er-elw, gan hwyluso pontio llyfnach i'r holl randdeiliaid dan sylw. Tynnwyd sylw hefyd at **gymorth ariannol** fel rhywbeth hanfodol, gydag ymatebwyr yn awgrymu darparu cymhellion i ddarparwyr er-elw i helpu gyda'u pontio. Roedd galwadau hefyd am fwy o fuddsoddiad gan awdurdodau lleol mewn darpariaeth nid-er-elw fewnol, i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.[6]

3.42 Yn ogystal, cynigiodd ymatebwyr **fentrau ychwanegol** i sicrhau goruchwyliaeth a chymorth effeithiol drwy gydol y broses bontio. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys sefydlu Bwrdd Ymgynghorwyr yn cynnwys unigolion ag arbenigedd a phrofiad priodol i oruchwylio gweithrediad yr ymrwymiad a darparu arweiniad. Ymhellach,

---

[6] Nodwyd y datganiad hwn yn ystod y dadansoddiad o Holiadur 1. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid oes modd egluro ymhellach a fyddai hyn yn tynnu ar adnoddau presennol neu adnoddau newydd.

roedd galwadau i sicrhau darpariaeth eiriolaeth a gwasanaethau cymorth perthnasol i'r plant a'r bobl ifanc yr effeithir arnynt er mwyn diogelu eu llesiant yn ystod y cyfnod pontio. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd lleihau nifer y plant mewn gofal trwy aduno'n ddiogel â theuluoedd biolegol. Yn olaf, cafwyd argymhellion i gynnal pwyslais parhaus ar ddiwygio'r system yn dilyn dileu elw.

*Canfyddiadau o Holiadur 2: Mesurau ychwanegol i sicrhau effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol*

3.43 Mae'r tablau canlynol yn dangos lle y daethpwyd i gonsensws a meysydd lle na chafwyd consensws ynghylch mesurau posibl i sicrhau effeithiau cadarnhaol a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad. Mae canran gyfun y cytundeb neu'r anghytundeb hefyd yn cael ei darparu o dan bob datganiad. Mae'r datganiadau byr a restrir yn y tablau yn seiliedig ar bwyntiau allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad thematig o ymatebion i Holiadur 1. Oherwydd gorgyffwrdd sylweddol yn yr ymatebion, cafodd mesurau i sicrhau effeithiau cadarnhaol a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol eu huno yn yr un set o ddatganiadau yn yr Holiadur 2.

**Tabl 3.6: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar y mesurau i sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol neu liniaru yn erbyn unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad**

Dylai Llywodraeth Cymru…

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau cyfathrebu tryloyw, canllawiau a chefnogaeth barhaus i randdeiliaid sy'n ymwneud â'r cyfnod pontio (e.e., ar eithriadau o ddeddfwriaeth). | 68.4% | 26.3% | 5.3% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **94.7%** | | | | |
| Dyrannu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn darpariaeth nid-er-elw gan gynnwys hyfforddi | 78.9 % | 15.8% | 5.3% | 0% | 0% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| staff a datblygu seilwaith. | | | | | |
| **Cyfun** | **94.7%** | | | | |
| Cefnogi datblygiad gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i leihau’r angen am leoliadau yn y dyfodol (gan gynnwys ar ffiniau gofal a chymorth teulu cyfannol i blant a theuluoedd). | 84.2% | 15.8% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **100%** | | | | |
| Canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal trwy aduno'n ddiogel â'u teuluoedd biolegol. | 42.1% | 57.9% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **100%** | | | | |
| Sicrhau y darperir gwasanaethau eiriolaeth a chymorth perthnasol i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt. | 68.4% | 26.3% | 5.3% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **94.7%** | | | | |
| Sicrhau bod yr ymrwymiad i ddileu elw yn cael ei oruchwylio trwy greu Bwrdd Ymgynghorwyr amlddisgyblaethol (y rhai sydd ag arbenigedd a phrofiad priodol). | 36.8% | 42.1% | 15.8% | 5.3% | 0% |
| **Cyfun** | **78.9%** | | | **5.3%** | |

**Tabl 3.7: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar y mesurau i sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol neu liniaru yn erbyn unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad**

Dylai Llywodraeth Cymru…

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaethu darpariaeth ariannu ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND). | 31.6% | 26.3% | 36.8% | 5.3% | 0% |
| **Cyfun** | **57.9%** | | | **5.3%** | |
| Cynnig cymhellion ariannol i annog darparwyr er-elw i bontio i endid nid-er-elw (gostyngiadau treth, grantiau, cymorthdaliadau). | 15.8 % | 36.8% | 31.6% | 10.5% | 5.3% |
| **Cyfun** | **52.6%** | | | **15.8%** | |
| Ymyrryd i reoli anghydbwysedd o ran cyflenwad a galw lleoliadau ar draws Awdurdodau Lleol. | 42.1% | 21.1% | 31.6% | 5.3% | 0% |
| **Cyfun** | **63.2%** | | | **5.3%** | |
| **Osgoi unrhyw oedi wrth weithredu'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal am blant sy'n derbyn gofal.** | 31.6% | 26.3% | 21.1% | 15.8% | 5.3% |
| **Cyfun** | **57.9%** | | | **21.1%** | |

3.44 Gan ddefnyddio’r blychau testun, gwnaeth ymatebwyr sylwadau pellach ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru gynnig cymhellion ariannol i annog darparwyr er-elw i drosglwyddo i endid nid-er-elw. Dadleuodd rhai cyfranogwyr y dylid gwneud penderfyniadau ar amgylchiadau penodol, gan gynnwys y rhesymau dros yr angen am anogaeth, y math o sefydliadau elw dan sylw[7], a’r canlyniadau andwyol posibl os na ddarperir cymhellion ariannol. Roedd eraill yn fwy amheus ynghylch yr angen, gan gwestiynu pam y dylai'r llywodraeth wneud iawn yn ariannol am bontio unrhyw ddarparwyr er-elw. Codwyd pryderon hefyd ynghylch y posibilrwydd y byddai cwmnïau’n dod yn rhai nid-er-elw mewn enw yn unig, neu’n derbyn cymhellion ariannol ac yna’n gadael y farchnad yn fuan wedyn.

*Mewnwelediadau pellach o drafodaethau grwpiau ffocws: Mesurau ychwanegol i sicrhau effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol*

3.45 Ysgogodd y datganiad (a amlygir mewn print trwm) ar osgoi oedi wrth weithredu’r ymrwymiad ystod amrywiol o safbwyntiau, gan arwain at ddiffyg consensws ymhlith y cyfranogwyr. Wrth drafod y datganiad hwn yn y grwpiau ffocws, rhybuddiodd y cytunwyr yn erbyn delfrydu’r system bresennol a phwysleisiwyd y byddai **oedi hir wrth weithredu ond yn cynyddu dryswch ac ansicrwydd ymhlith rhanddeiliaid**. Dadleuodd cwpl o gyfranogwyr ymhellach, er y gallai fod angen diwygiadau, ei bod yn hanfodol sefydlu dyddiad terfyn clir i sicrhau cynnydd.

3.46 I’r gwrthwyneb, pwysleisiodd cwpl o’r cyfranogwyr a oedd yn gwrthwynebu’r datganiad **bwysigrwydd cymryd yr amser angenrheidiol** i sicrhau bod y model newydd yn gadarn ac yn gallu mynd i’r afael â chanlyniadau nas rhagwelwyd. Tanlinellodd rhai cyfranogwyr hefyd yr angen i flaenoriaethu canlyniadau dros gadw'n gaeth at yr amserlen a bennwyd ymlaen llaw. Arweiniodd pryderon ynghylch amhariadau posibl ar bobl ifanc at alwadau lluosog am fonitro’r cyfnod pontio ac addasu yn ôl yr angen.

3.47 Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod **goblygiadau cynnil oedi i wahanol randdeiliaid**. Roedd un cyfranogwr yn cydnabod y gall oedi gael effeithiau amrywiol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, megis plant mewn darparwyr gofal preswyl neu ofal maeth er-elw nad ydynt yn bwriadu pontio, lle gallai oedi hirach fod yn fwy dymunol. At hynny, roedd cytundeb ymhlith cwpl o gyfranogwyr ar yr **angen am sgwrs ar wahân am y ddarpariaeth i blant ag anableddau**, gan gydnabod y galw

[7] Rhoddwyd yr esboniad hwn yn y blychau testun agored yn Holiadur 2. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid yw'n bosibl cael eglurhad pellach ynghylch pa sefydliadau y deallwyd eu bod yn gymwys ar gyfer cymhellion ariannol.

cynyddol a'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â diwallu'r anghenion hynny o fewn y system bresennol.

3.48 Yn dilyn trafodaethau mewn grwpiau ffocws, **cytunodd cyfranogwyr lluosog ar yr angen am ddull cytbwys**, sy'n cefnogi cynnydd ar gyflymder rhesymol heb gyfaddawdu ar y canlyniadau i blant. Roedd consensws ar bwysigrwydd cyfnod pontio diogel a rheoledig, gan gydnabod y cymhlethdodau dan sylw a'r angen i ystyried safbwyntiau'r holl randdeiliaid yn ofalus.

3.49 Yn ogystal, gofynnwyd i gyfranogwyr **pa rai ymhlith y mesurau ychwanegol a gyrhaeddodd gonsensws y byddent yn eu blaenoriaethu**. Wedi'u cymell gan y datganiad ar gyfathrebu tryloyw, canllawiau a chymorth parhaus i randdeiliaid sy'n ymwneud â'r cyfnod pontio, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd tryloywder mewn ymdrechion i wella'r cyflenwad o leoliadau, yn enwedig i ALlau. Er mwyn gwasanaethu buddiannau gorau plant, pwysleisiodd un cyfranogwr bwysigrwydd darparu mwy o fewnwelediad i ddeinameg cyflenwad a galw. Cafwyd cefnogaeth hefyd gan un cyfranogwr i gynyddu'r ddarpariaeth yn y trydydd sector fel strategaeth i fynd i'r afael â heriau presennol, o ystyried y potensial am atebion arloesol a lleol.

**<u>Archwilio trawsnewidiad ehangach gofal cymdeithasol plant</u>**

3.50 Mae'r adran hon yn archwilio ymatebion i gwestiynau yn Adran 3 a oedd yn ymchwilio i drawsnewidiad ehangach gofal cymdeithasol plant. Gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod yr effeithiau ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc, yn ogystal ag awgrymu unrhyw fesurau i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

**Effaith ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd**

*Canfyddiadau o Holiadur 1: Effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru*

3.51 Gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod effeithiau posibl yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.

3.52 Roedd **effeithiau negyddol tymor byr ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd** yn ystod y cyfnod pontio yn ystyriaeth allweddol a godwyd gan ymatebwyr. Yn benodol, mynegwyd pryderon ynghylch y prinder posibl o leoliadau a

gwasanaethau, o ganlyniad i gau darparwyr er-elw. Yn ogystal, canfuwyd y byddai adleoli darparwyr er-elw i Loegr yn lleihau ymhellach y ddarpariaeth gwasanaeth a lleoliadau. Deallwyd bod y prinder posibl hwn yn cyflwyno risg gynyddol i blant a phobl ifanc a allai gael eu gorfodi i aros mewn amgylcheddau anniogel oherwydd y diffyg lleoliadau sydd ar gael. At hynny, trafodwyd heriau o ran recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru, gan waethygu problemau lleoli ymhellach. Nododd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch lleoli plant mewn gwasanaethau sydd ymhellach i ffwrdd oddi wrth deulu, ffrindiau a chymunedau. Roedd pryderon hefyd ynghylch risgiau diogelwch cynyddol i blant a phobl ifanc oherwydd mwy o leoliadau teuluol amhriodol a lleoliadau heb eu rheoleiddio. I’r gwrthwyneb, trafodwyd hefyd **effeithiau cadarnhaol tymor byr ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd** yn ystod y cyfnod pontio. Amlygodd yr ymatebion y potensial am welliannau drwy fwy o gynllunio a chydweithio rhwng ALlau a sefydliadau trydydd sector.

3.53 Ymestynnwyd y trafodaethau i **effeithiau negyddol hirdymor ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd**. Mynegodd yr ymatebwyr bryderon ynghylch dargyfeirio adnoddau oddi wrth flaenoriaethau trawsnewid ehangach. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod yr **effeithiau cadarnhaol hirdymor ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd**. Er enghraifft, pwysleisiodd ymatebwyr y gallu uwch i reoleiddio prisiau lleoliadau a sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu i anghenion plant. Cydnabuwyd hefyd y potensial ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth i fynd i'r afael yn well ag anghenion penodol plant a phobl ifanc, gan feithrin dull mwy lleol o ddarparu gofal. Serch hynny, mynegodd ymatebwyr bryderon cyffredinol efallai na fyddai’r ymrwymiad yn cael ei gyflawni ac na fyddai’n cael ei weithredu’n gyson ar draws rhanbarthau gwahanol.[8] Roeddent hefyd yn awgrymu archwilio model cymysg o ddarpariaeth er-elw a nid-er-elw fel ateb posibl i sicrhau cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.

3.54 Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr Holiadur 1 ystyried goblygiadau peidio â gweithredu'r ymrwymiad. Un thema allweddol oedd **heriau ariannol parhaus**. Heb roi’r ymrwymiad ar waith, nodwyd pryderon ynghylch yr heriau ariannol parhaus y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu, gan gynnwys toriadau i wasanaethau cymorth hanfodol megis ffiniau gofal a chynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal. Roedd pryderon hefyd ynghylch y cynnydd posibl yng nghost

---

[8] Nodwyd y datganiad hwn yn ystod y dadansoddiad o Holiadur 1. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid oes modd egluro ymhellach y rhesymau pam yr oedd pryderon na fyddai'r ymrwymiad yn cael ei weithredu'n gyson.

lleoliadau oherwydd yr heriau parhaus o ran seilwaith, cyllideb a staffio. Mynegodd ymatebwyr hefyd bryder ynghylch y gwastraff adnoddau posibl a oedd eisoes wedi'i fuddsoddi wrth gynllunio ar gyfer yr ymrwymiad.

3.55 Yn absenoldeb yr ymrwymiad, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd archwilio **mesurau eraill**. Roedd hyn yn cynnwys trethiant neu fecanweithiau rheoleiddio i fynd i'r afael ag elw gormodol a dynnir allan gan ddarparwyr. Roedd galwad hefyd am fwy o fonitro sefydliadau er-elw sy'n ymwneud â gorelwa, ynghyd â mwy o fuddsoddiad gan ALlau mewn darpariaeth fewnol i leihau'r ddibyniaeth ar ddarparwyr er-elw.[9] Roedd **darpariaeth marchnad gamweithredol** hefyd yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro, megis y posibilrwydd o gau cartrefi anghynlluniedig oherwydd dyledion cwmnïau preifat. Roedd pryderon hefyd y byddai'r ddarpariaeth yn parhau i fethu â diwallu anghenion plant ac y byddai diffyg sicrwydd ansawdd, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwaeth i blant a phobl ifanc.

3.56 Nododd rhai ymatebwyr y gallai peidio â gweithredu'r ymrwymiad alluogi mwy o ffocws ar yr **agenda drawsnewid ehangach** ym maes gofal cymdeithasol plant. Roedd hyn yn cynnwys ymdrechion comisiynu a marchnata strategol i sicrhau bod plant yn cael mynediad at y ddarpariaeth briodol pan fo angen. I'r gwrthwyneb, tynnodd ymatebwyr eraill sylw at **bwysigrwydd gweithredu'r ymrwymiad**. Roedd pwyslais ar bwysigrwydd peidio â chwestiynu p'un a yw'r ymrwymiad i'w weithredu ond yn hytrach canolbwyntio ymdrechion ac ystyriaeth ar sut y dylid ei weithredu

*Canfyddiadau o Holiadur 2: Effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru*

3.57 Mae'r tablau canlynol yn amlygu meysydd lle cafwyd consensws a meysydd lle na chafwyd consensws ynghylch effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae canran gyfun y cytundeb neu'r anghytundeb hefyd yn cael ei darparu o dan bob datganiad. Mae'r datganiadau byr a restrir yn y tablau yn seiliedig ar bwyntiau allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad thematig o ymatebion i Holiadur 1.

[9] Nodwyd y datganiad hwn yn ystod y dadansoddiad o Holiadur 1. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid yw'n bosibl egluro ymhellach a fyddai ALlau angen adnoddau ychwanegol neu a fyddent yn defnyddio adnoddau presennol yn wahanol.

**Tabl 3.8: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru**

Bydd yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn…

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Cael effaith gadarnhaol tymor byr a hirdymor ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, oherwydd gwell cynllunio a chydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a sefydliadau trydydd sector. | 10.5% | 68.4% | 10.5% | 10.5% | 0% |
| **Cyfun** | **78.9%** | | | **10.5%** | |
| Cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, oherwydd y gallu uwch i reoleiddio prisiau lleoliadau. | 26.3% | 57.9% | 10.5% | 5.3% | 0% |
| **Cyfun** | **84.2%** | | | **5.3%** | |
| Cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, oherwydd y gallu gwell i sicrhau bod arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gofal plant sy'n derbyn gofal yn cael ei wario ar wasanaethau plant. | 36.8% | 52.6% | 10.5% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **89.4%** | | | | |
| Cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, oherwydd y trawsnewidiad | 36.8% | 47.4% | 15.8% | 0% | 0% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cyffredinol yn y ddarpariaeth i hyrwyddo darpariaeth leol, fwy priodol sy'n ymateb yn well i anghenion plant a phobl ifanc. | | | | | |
| **Cyfun** | **84.2%** | | | | |
| Mae pryderon efallai na fydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael ei gyflawni a'i weithredu'n gyson ar draws rhanbarthau gwahanol. | 26.3% | 57.9% | 15.8% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **84.2%** | | | | |

**Tabl 3.9: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru**

Bydd yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn…

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Cael effaith negyddol tymor byr ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant gan y gallai cau ac adleoli darparwyr er-elw arwain at lai o wasanaethau ac argaeledd lleoliadau. | 26.3% | 36.8% | 26.3% | 10.5% | 0% |
| **Cyfun** | **63.1%** | | | **10.5%** | |
| Cael effaith negyddol tymor byr ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant a llesiant staff oherwydd yr effaith ar recriwtio a chadw'r gweithlu gofal | 15.8 % | 42.1% | 10.5% | 26.3% | 5.3% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cymdeithasol ledled Cymru. | | | | | |
| **Cyfun** | **57.9%** | | | **31.6%** | |
| Cael effaith negyddol hirdymor ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, o ganlyniad i ddargyfeirio capasiti ac adnoddau oddi wrth y blaenoriaethau trawsnewid ehangach. | 0% | 31.6% | 26.3% | 15.8% | 26.3% |
| **Cyfun** | **31.6%** | | | **42.1%** | |

*Mewnwelediadau pellach o drafodaethau grwpiau ffocws: Effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru*

3.58 Arweiniodd y datganiad (a amlygir mewn print trwm yn Nhabl 3.9) ar yr **effaith negyddol tymor byr ar recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol**, at ddiffyg consensws ymhlith arbenigwyr yn Holiadur 2. Mewn grwpiau ffocws, roedd rhai o'r cyfranogwyr oedd yn dadlau yn erbyn y datganiad yn cwestiynu pam y byddai trosglwyddo i fodel nid-er-elw yn gwaethygu heriau presennol y gweithlu. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn gofal maeth lle'r oedd cadw staff eisoes yn broblem. Awgrymwyd ymhellach fod awdurdodau lleol yn cael eu gweld yn gyffredinol fel cyflogwyr gwell na'r sector preifat, gan gynnig telerau ac amodau mwy manteisiol. Roedd cwpl o'r cyfranogwyr yn cytuno, gan bwysleisio bod ALlau yn darparu gwell cyflog, amodau gwaith a chyfleoedd hyfforddi. Roedd cwpl yn obeithiol y byddai buddsoddiad cynyddol y wladwriaeth mewn gofal preswyl yn denu mwy o unigolion i'r maes gofal cymdeithasol, gan gyfrannu yn y pen draw at dwf a chynaliadwyedd hirdymor.

3.59 I'r gwrthwyneb, mynegodd cwpl o'r cyfranogwyr oedd yn cytuno â'r datganiad bryderon am yr ansicrwydd ynghylch yr ymrwymiad i ddileu elw. Amlygodd un cyfranogwr bryderon ynghylch hyfywedd cartrefi plant fel mannau cyflogaeth sefydlog yn y dyfodol, gan arwain at i unigolion chwilio am opsiynau swyddi eraill i gael mwy o sefydlogrwydd. Yn ogystal, cynigiodd cyfranogwr arall ddull ehangach o gryfhau'r gweithlu, gan gydnabod arwyddocâd cymwysterau a hyfforddiant ar lefel graddedigion. Roeddent o'r farn y gellid cael canlyniadau mwy cadarnhaol i'r

gweithlu gofal cymdeithasol drwy fynd i'r afael ag ansawdd a sefydlogrwydd y gweithlu drwy wella cymwysterau.

3.60 Mynegwyd safbwyntiau amrywiol hefyd o ran yr **effaith negyddol hirdymor oherwydd dargyfeirio capasiti ac adnoddau oddi wrth flaenoriaethau trawsnewid ehangach** (a amlygir mewn print trwm yn Nhabl 3.9). Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr fod y canlyniad yn dibynnu ar reoli, cynllunio a blaenoriaethu effeithiol. Cydnabuwyd pe bai'n cael ei weithredu'n effeithiol, byddai modd dileu elw o'r ddarpariaeth gofal heb gymryd gormod o amser ac egni. Fodd bynnag, gallai gweithredu gwael amharu ar agendâu trawsnewid eraill. Mewn ymateb, galwodd un cyfranogwr am lywodraethu priodol gan Lywodraeth Cymru a gwahanu gwahanol agendâu er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder wrth ddyrannu adnoddau.[10]

3.61 Arweiniodd trafodaethau ynghylch y datganiadau uchod at ystyriaethau ehangach. Roedd rhai cyfranogwyr yn dadlau efallai na fyddai trosglwyddo i fodel nid-er-elw yn mynd i'r afael yn effeithiol â materion sylfaenol oni bai bod buddsoddiad cydamserol mewn staff a chyfleusterau i gyd-fynd â hynny. Cymerodd cyfranogwr arall safiad cadarnach, gan awgrymu efallai nad y polisi ei hun yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Cynigiwyd yn hytrach mai'r prif amcan ddylai fod i ddyrannu adnoddau i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel a chefnogaeth ddigonol i staff.

**Effaith ar ganlyniadau llesiant**

*Canfyddiadau o Holiadur 1: Effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru*

3.62 Gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod effeithiau posibl yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd ymatebwyr yn gweld bod **effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc**. Y gobaith oedd y byddai'r symudiad tuag at fodelau nid-er-elw yn arwain at ddarparu gwasanaethau mwy lleol a seiliedig ar anghenion o ansawdd uwch. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn rhagweld y byddai'n sicrhau bod elw'n cael ei gyfeirio at wella gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd, gan wella canlyniadau llesiant cyffredinol.

[10] Rhoddwyd yr esboniad hwn yn y grwpiau ffocws. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid yw esboniad pellach ynglŷn â gwahanu gwahanol agendâu yn bosibl.

3.63 Serch hynny, nodwyd pryderon hefyd ynghylch unrhyw **ganlyniadau a heriau anfwriadol**. Pwysleisiodd yr ymatebwyr nad oedd darpariaeth nid-er-elw yn gwarantu canlyniadau cadarnhaol, o ystyried yr heriau cynhenid yn y sector. Nododd ymatebwyr hefyd fod llwyddiant yr ymrwymiad a thrawsnewid ehangach i ganlyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol yn dibynnu ar reoli unrhyw effeithiau negyddol a allai ddylanwadu'n andwyol ar ganlyniadau llesiant. Roedd yr effeithiau negyddol hyn yn cynnwys oedi wrth ddod o hyd i leoliadau addas, adleoli gorfodol a llai o gapasiti. Teimlwyd hefyd bod llwyddiant yr ymrwymiad a'r trawsnewid ehangach yn dibynnu ar faint o gynllunio a chymorth a gynigir i ddarparwyr gofal a gweithwyr proffesiynol yn ystod y cyfnod gweithredu. At hynny, awgrymodd ymatebwyr y byddai'n dibynnu ar fabwysiadu amserlen fwy realistig ar gyfer gweithredu er mwyn osgoi unrhyw aflonyddwch a allai beryglu canlyniadau llesiant. Pwysleisiwyd yn olaf, er gwaethaf arwyddocâd yr ymrwymiad, y dylid cydnabod y dylai canlyniadau llesiant barhau i fod yn flaenoriaeth ar draws yr holl fentrau yn y sector gofal.

*Canfyddiadau o Holiadur 2: Effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru*

3.64 Mae'r tablau canlynol yn amlygu lle daethpwyd i gonsensws a meysydd lle na chafwyd consensws ynghylch effeithiau'r ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae canran gyfun y cytundeb neu'r anghytundeb hefyd yn cael ei darparu o dan bob datganiad. Mae'r datganiadau byr a restrir yn y tablau yn seiliedig ar bwyntiau allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad thematig o ymatebion i Holiadur 1.

**Tabl 3.10: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru**

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn gwarantu canlyniadau | 31.6% | 52.6% | 5.3% | 10.5% | 0% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cadarnhaol gan fod heriau cynhenid yn parhau o fewn y sector nid-er-elw. | | | | | |
| **Cyfun** | **84.2%** | | | **10.5%** | |
| Ni fydd dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ond yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc os cynigir cynlluniau pontio a chymorth i ddarparwyr gofal a gweithwyr proffesiynol yn ystod y cyfnod gweithredu. | 47.4% | 36.8% | 15.8% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **84.2%** | | | | |

**Tabl 3.11: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru**

| **Datganiad** | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn Cytuno nac Anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bydd dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc.** | 21.1% | 36.8% | 42.1% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **57.9%** | | | | |
| Bydd dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ond yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i | 26.3 % | 15.8% | 42.1% | 10.5% | 5.3% |

| | | |
|---|---|---|
| blant a phobl ifanc os mabwysiadir amserlen fwy realistig ar gyfer gweithredu er mwyn osgoi unrhyw aflonyddwch a allai beryglu canlyniadau llesiant. | | |
| **Cyfun** | **42.1%** | **15.8%** |

*Mewnwelediadau pellach o drafodaethau grwpiau ffocws: Effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar y canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru*

3.65 Aeth trafodaethau yn y grwpiau ffocws i'r afael â'r datganiad canlynol, 'bydd dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc' (a amlygir mewn print trwm yn Nhabl 3.11). Roedd cyfranogwyr lluosog yn cytuno y **gallai'r ymrwymiad i ddileu elw gael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau llesiant**, yn enwedig os yw darparwyr preifat yn parhau i ddarparu gwasanaethau o safon er gwaethaf newidiadau strwythurol.

3.66 Er bod optimistiaeth ofalus ynghylch effeithiau cadarnhaol posibl yr ymrwymiad a'r trawsnewid ehangach, pwysleisiodd cyfranogwyr lluosog – fel mewn trafodaeth flaenorol ar feysydd lle nad oedd consensws – yr angen am **weithrediad effeithiol a chymorth ariannol digonol ar gyfer yr ymrwymiad**. Roedd pwyslais clir ar fynd i'r afael â heriau ymarferol i sicrhau llwyddiant. Roedd hyn yn cynnwys monitro parhaus i sicrhau effeithiolrwydd yr ymrwymiad o ran cael canlyniadau llesiant cadarnhaol. Mynegwyd pryderon hefyd gan un cyfranogwr ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i ymdrin â thrawsnewidiad sylweddol er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol.

3.67 Mewn gwirionedd, roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod **trawsnewidiad ehangach gofal cymdeithasol plant yn chwarae mwy o ran mewn gwella canlyniadau llesiant o'i gymharu â dileu elw yn unig**. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiadau mewn gwasanaethau teuluol a gwasanaethau cymorth cynnar. Roedd cwpl o'r cyfranogwyr hefyd yn cwestiynu a fyddai'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth er-elw a nid-er-elw yn effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau llesiant, gan amlygu'r angen am ymagwedd gyfannol at wasanaethau.

3.68 Yn fwy cyffredinol, manteisiodd cyfranogwr arall ar y cyfle i ailadrodd yr egwyddor **na ddylai gofal gael ei ysgogi gan elw**, gan ystyried ei bod yn foesegol anghywir i gamfanteisio ar blant agored i niwed er budd economaidd. Roedd y cytundeb hwn yn adlewyrchu persbectif plentyn-ganolog, lle'r oedd cyfranogwyr lluosog yn ceisio blaenoriaethu'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

**Effaith ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal**

*Canfyddiadau o Holiadur 1: Mesurau ychwanegol i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru*

3.69 Gofynnwyd i'r ymatebwyr drafod y **mesurau posibl** y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru, fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol plant.

3.70 Un awgrym a gododd dro ar ôl tro oedd **gwell cyfathrebu a monitro**. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau cynnydd rheolaidd ar fuddsoddiadau cyfredol yn y sector i lywio buddsoddiadau a chynlluniau diwygio yn y dyfodol. Cafwyd galwadau hefyd am fwy o dryloywder ynghylch y ddarpariaeth rheoliadau a sut y caiff hon ei gweithredu a'i monitro. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid gwella'r broses o gasglu data ar ofal cymdeithasol plant er mwyn hwyluso gwerthusiadau o newidiadau. Hefyd, tynnwyd sylw at bwysigrwydd datblygu naratif cyhoeddus cryfach i hyrwyddo gofal fel gwasanaeth buddiol, gan ystyried bod ymgysylltu â'r cyhoedd i gefnogi'r ymdrechion hyn yn hanfodol, yn enwedig wrth recriwtio gweithlu a hyrwyddo gofal fel gyrfa werth chweil.

3.71 Daeth **cydweithio** hefyd i'r amlwg fel thema bwysig. Roedd galwadau am fwy o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru ac ALlau. Roeddent hefyd yn argymell alinio ymdrechion gyda nodau'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i sefydlu darpariaethau rhanbarthol llai fel y safon. Argymhellwyd cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, llety ac addysg ar y cyd i ddiwallu anghenion cymhleth plant.

3.72 Roedd **ystyriaethau ariannol** yn cynnwys sefydlu system dyrannu cyllid fwy effeithlon sy'n targedu gwasanaethau plant yn uniongyrchol. Roeddent hefyd yn argymell mwy o fuddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygiad i weithwyr proffesiynol ac arweinwyr gofal preswyl, gan gynnwys cyllid parhaus ar gyfer bwrsarïau hyfforddi. Cafwyd awgrymiadau i fuddsoddi mewn darpariaethau gofal preswyl

mewnol a thrydydd sector, a buddsoddi ymhellach mewn maethu ALI. Galwodd ymatebwyr hefyd am fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn ffioedd gofal maeth ac am lwfansau i sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau.

3.73 Galwodd yr ymatebwyr am **fentrau pellach** sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid ehangach. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu mesurau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar i leihau'r angen am leoliadau yn y dyfodol, gan gynnwys ar ffiniau gofal a chymorth teulu cyfannol i blant a theuluoedd. Roeddent yn argymell alinio gofynion cyfreithiol ar gyfer cofrestru gwasanaeth â strategaethau comisiynu. [11] Y gobaith oedd sicrhau bod y gwasanaethau iawn yn cael eu cofrestru yn y lle iawn i ddiwallu anghenion plant. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid datblygu ymrwymiadau i ddarparu llety ar gyfer anghenion cymhleth ym mhob rhanbarth. Yn ogystal, gwnaed awgrymiadau i ystyried opsiynau ailuno teuluoedd lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol. Roedd galwadau pellach i ystyried ymestyn y cyfnod pontio i hwyluso gweithrediad llyfnach newidiadau.

*Canfyddiadau o Holiadur 2: Mesurau ychwanegol i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru*

3.74 Mae'r tablau canlynol yn amlygu lle daethpwyd i gonsensws a meysydd lle na chafwyd consensws yn y mesurau ychwanegol i'w cyflwyno i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru, fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol plant. Mae canran gyfun y cytundeb neu'r anghytundeb hefyd yn cael ei darparu o dan bob datganiad. Mae'r datganiadau byr a restrir yn y tablau yn seiliedig ar bwyntiau allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad thematig o ymatebion i Holiadur 1.

**Tabl 3.12: Meysydd lle daethpwyd i gonsensws ar y mesurau ychwanegol i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru**

Dylai Llywodraeth Cymru…

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparu diweddariadau cynnydd rheolaidd ar | 68.4% | 26.3% | 5.3% | 0% | 0% |

[11] Adnabuwyd y datganiad hwn yn ystod dadansoddiad Holiadur 1. Gan na ddarparwyd rhagor o fanylion, nid yw esboniad pellach yn bosibl ynglŷn â'r aliniad â gofynion cyfreithiol..

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ba fuddsoddiadau y maent yn eu gwneud i gefnogi'r sector nid-er-elw. | | | | | |
| **Cyfun** | **94.7%** | | | | |
| Datblygu naratif cyhoeddus cryfach, gan hyrwyddo gofal fel rhywbeth buddiol, sy'n arddangos ei effaith, ac ymgysylltu â'r cyhoedd i gefnogi'r ymdrechion hyn. | 52.6 % | 42.1% | 0% | 5.3% | 0% |
| **Cyfun** | **94.7%** | | | **5.3%** | |
| Datblygu cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, llety ac addysg ar y cyd i ddiwallu anghenion amrywiol plant.. | 78.9% | 21.1% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **100%** | | | | |
| Alinio ymdrechion ag amcanion y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i sefydlu darpariaethau rhanbarthol llai fel y safon. | 31.6% | 57.9% | 10.5% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **89.5%** | | | | |
| Sefydlu system dyrannu cyllid fwy effeithlon sy'n targedu gwasanaethau plant yn uniongyrchol yn hytrach na setliadau ehangach Awdurdodau Lleol. | 42.1% | 47.4% | 10.5% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **89.5%** | | | | |
| Cynyddu buddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygiad i weithwyr proffesiynol ac arweinwyr gofal preswyl, gan gynnwys cyllid parhaus ar gyfer bwrsarïau hyfforddi. | 47.4% | 47.4% | 5.3% | 0% | 0% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfun** | **94.8%** | | | | |
| Mynd i’r afael â gwahaniaethau mewn ffioedd a lwfansau gofal maeth i sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau. | 47.4% | 36.8% | 10.5% | 0% | 5.3% |
| **Cyfun** | **84.2%** | | | **5.3%** | |
| Gweithredu mesurau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar i leihau’r angen am leoliadau yn y dyfodol (gan gynnwys ar ffiniau gofal a chymorth teulu cyfannol i blant a theuluoedd). | 57.9% | 36.8% | 5.3% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **94.7%** | | | | |
| Hyrwyddo ymrwymiadau i ddarparu llety ar gyfer anghenion cymhleth ym mhob rhanbarth. | 63.2% | 21.1% | 15.8% | 0% | 0% |
| **Cyfun** | **84.3%** | | | | |

**Tabl 3.13: Meysydd lle na ddaethpwyd i gonsensws ar y mesurau ychwanegol i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal yng Nghymru**

| **Datganiad** | **Cytuno’n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn Cytuno nac Anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno’n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn lle’r ymrwymiad i ddileu elw, dylai Llywodraeth Cymru yn hytrach gynllunio a gweithredu dull polisi mwy hirdymor (e.e., datblygu darpariaeth newydd drwy fuddsoddiad cyhoeddus uniongyrchol er mwyn dod â modelau sy’n seiliedig ar elw i ben yn raddol). | 15.8% | 10.5% | 31.6% | 31.6% | 10.5% |
| **Cyfun** | **26.3%** | | | **42.1%** | |

3.75 Gan ddefnyddio’r blychau testun, gwnaeth ymatebwyr sylwadau pellach ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull polisi mwy hirdymor. Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr y dylai dileu elw fod yn rhan o broses raddol o ddirwyn elw i ben, yn hytrach na’r cynnig presennol. Mynegodd cyfranogwyr eraill bryderon am yr anawsterau i osgoi lleoliadau heb eu rheoleiddio neu leoliadau er-elw hyd nes sefydlir ystod gynaliadwy o opsiynau nid-er-elw ym mhob rhanbarth.

*Mewnwelediadau pellach o drafodaethau grwpiau ffocws: Mesurau ychwanegol i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal yng Nghymru*

3.76 Roedd y trafodaethau yn y grwpiau ffocws yn blaenoriaethu’r unig ddatganiad o’r adran hon (gweler Tabl 3.13) lle na chafwyd unrhyw gonsensws, a lle rhannwyd ymatebwyr Holiadur 2 (‘Yn lle’r ymrwymiad i ddileu elw, dylai Llywodraeth Cymru yn hytrach gynllunio a gweithredu dull polisi mwy hirdymor e.e., datblygu darpariaeth newydd drwy fuddsoddiad cyhoeddus uniongyrchol er mwyn dod â modelau sy’n seiliedig ar elw i ben yn raddol’).

3.77 Mewn grwpiau ffocws, roedd rhai cyfranogwyr yn cytuno â’r datganiad, gan amlygu’r pwyslais ar yr **angen am ‘ddull polisi hirdymor’**. Roeddent yn tanlinellu'r angen am linellau amser a thrawsnewidiadau clir i atal oedi neu anghysondebau wrth weithredu. Roeddent yn dadlau’n fras am ddull gofalus, graddol i leihau effeithiau negyddol.

3.78 Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn anghytuno â’r defnydd o ‘*yn lle’* wrth fframio’r cwestiwn gan eu bod yn **gwrthwynebu’r cynnig i ddisodli’r ymrwymiad** i ddileu elw. Yn lle hynny, cyflwynodd cwpl o gyfranogwyr atebion *atodol* ychwanegol. Er enghraifft, galwasant am ddull mwy cynhwysfawr a chynhwysol, gan gynnwys cyfuniad o fuddsoddiadau er-elw a nid-er-elw. Awgrymwyd hefyd gyd-ymdrechion ar ran ALlau, gyda’r bwriad o fynd i’r afael â materion megis costau di-reolaeth mewn gofal maeth a gofal preswyl.

3.79 Pwysleisiodd cyfranogwr arall nod ehangach yr ymrwymiad i ddileu elw er mwyn cael **mwy o reolaeth dros adnoddau**. Yn unol â hynny, cynigiwyd mentrau megis creu cofrestr o ddarparwyr gofal maeth i wella data a chynllunio. Yn ogystal, cafwyd awgrymiadau i ailfeddwl y cysyniad o ddileu elw fel yr unig ysgogydd, gan ganolbwyntio yn hytrach ar wella canlyniadau, ansawdd a llywodraethu.

3.80 **Cymharodd un cyfranogwr â chyd-destunau eraill**, megis y lleiafswm o wasanaethau maethu a gofal preswyl er-elw yng Ngogledd Iwerddon. Roeddent yn

cydnabod y sefyllfa unigryw yng Nghymru, sef pontio o gyfran uchel o ddarpariaeth er-elw i ddarpariaeth nid-er-elw, sy’n gofyn am ddull gwahanol o weithredu o’i gymharu â Gogledd Iwerddon. Amlygodd y cymariaethau hyn yr angen am strategaethau ac atebion i fynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir gan Gymru yn ystod y cyfnod pontio hwn.

3.81 Yn olaf, gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws **flaenoriaethu'r mesurau ychwanegol niferus a sicrhaodd gonsensws**. Mynegodd cwpl o ymatebwyr rwystredigaeth ynghylch y portread negyddol o’r system ofal yn y cyfryngau a thrafodaethau cyhoeddus, gan amlygu ei botensial i atal gofalwyr maeth posibl. O'r safbwynt hwn, roedd yr awgrym o naratif cyhoeddus cryfach yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Tynnodd sawl cyfranogwr sylw hefyd at bwysigrwydd canfyddedig gweithredu mesurau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Roedd galwadau hefyd i ganolbwyntio ar ddatblygu cyd-gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, llety ac addysg i ddiwallu anghenion amrywiol plant. Yn ogystal â’r datganiadau a sicrhaodd gonsensws, dychwelodd y drafodaeth unwaith eto at greu cofrestr o ddarparwyr gofal maeth, gan eu hintegreiddio i gofrestr gofal cymdeithasol ochr yn ochr â mesurau trawsnewidiol eraill sy’n cael eu hystyried. Awgrymwyd hefyd y dylid blaenoriaethu hyn, gydag un cyfranogwr yn tanlinellu arwyddocâd y cynnig hwn trwy nodi enghreifftiau o ofalwyr maeth nad oeddent wedi cael eu defnyddio er eu bod yn byw mewn ardaloedd lle’r oedd galw mawr am wasanaethau.

# 4. Casgliadau

4.1 Nod yr astudiaeth Delphi hon oedd nodi meysydd o gonsensws a diffyg consensws ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Roedd proses strwythuredig y fethodoleg gymhwysol, gan gynnwys tri cham olynol o gasglu data, lle'r oedd yr olaf ei lywio gan yr un blaenorol, yn caniatáu nodi meysydd consensws yn glir ac yn dryloyw ac ymchwilio ymhellach i feysydd allweddol lle na chafwyd consensws.

4.2 Yn unol â phrotocol astudiaeth Delphi (Vogel et al, 2019), barnwyd bod consensws wedi'i gyrraedd pan oedd awgrym o ymatebion Holiadur 1 a gyflwynwyd i Holiadur 2 yn cael ei raddio gan o leiaf 70-80% o'r cyfranogwyr fel naill ai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf', neu 'anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf'. Ystyriwyd bod datganiadau a gyrhaeddodd ganran gyfun o gytundeb neu anghytundeb o dan 70% yn Holiadur 2 yn dangos diffyg consensws.

4.3 Roedd yn amlwg bod llai o gonsensws yn Adran 1 ac Adran 2, a oedd yn ystyried effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant ynghyd â dileu darpariaeth er-elw, tra bod consensws yn cael ei gyflawni'n aml yn Adran 3 a oedd yn archwilio trawsnewid ehangach gofal cymdeithasol plant, gan adlewyrchu canfyddiadau astudiaethau blaenorol (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2024). Mae'r bennod hon yn crynhoi'r meysydd lle cafwyd consensws a'r rhai lle na chafwyd consensws ar draws astudiaeth Delphi.

4.4 Mae'r canlyniadau hefyd yn cadarnhau safiad cychwynnol y cyfranogwyr tuag at yr ymrwymiad. Ar ddiwedd Holiadur 1, gwahoddwyd yr arbenigwyr i fyfyrio ynghylch a oeddent yn cytuno **mewn egwyddor** â'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd ymatebion arbenigwyr yn dangos bod **cytundeb cyffredinol â'r ymrwymiad**, ond roedd pryderon hefyd ynghylch **yr heriau ymarferol a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r newid hwn.**

### Cryfderau a chyfyngiadau

4.5 Gan harneisio gwybodaeth arbenigol gyfunol yr arbenigwyr yng Nghymru a'r DU, mae dull Delphi yn addas ar gyfer cael canfyddiadau cyflym a dibynadwy a all lywio'r gwaith o lunio polisïau. Mae hyn oherwydd ei fod yn galluogi cydgasglu gwybodaeth yn gyflym gan arbenigwyr mewn proses effeithlon. Yn ystod yr ymchwil, cafodd arbenigwyr ym mhob rownd drosolwg o ymatebion arbenigwyr eraill tra'n aros yn ddienw, gan ganiatáu i arbenigwyr fynegi eu barn yn rhydd a

deall safbwyntiau eu cyfoedion i gefnogi datblygiad consensws. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y broses yn cymryd llawer o amser i gyfranogwyr, sy'n gofyn am sawl rownd o arolygon a dadansoddiadau i ddod i gonsensws. Tra bod datganiadau wedi'u geirio'n gryf yn Holiadur 2 yn angenrheidiol er mwyn ennyn safbwyntiau i ffurfio consensws, deellir bod natur y datganiadau hyn weithiau'n arwain y cyfranogwyr i ddewis 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' fel eu hymateb. Cyfyngiad posibl pellach ar astudiaeth Delphi yw nad yw'n darparu mecanwaith clir ar gyfer dadansoddi a yw'r gwahaniaeth yn dilyn patrwm penodol ai peidio. Lle'r oedd safbwyntiau'n amrywio, efallai bod angen fframweithiau dadansoddol ychwanegol er mwyn gallu nodi a dehongli patrymau o wahaniaeth. Yn yr adroddiad hwn, mae'r dull o ddefnyddio disgrifyddion penodol i nodi lefelau cytundeb mewn grwpiau ffocws yn darparu ffordd glir a thryloyw o adrodd ar lefelau cytundeb ymhlith cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio na ddylid cymryd y defnydd o'r disgrifyddion hyn fel dangosyddion meintiol.

**Meysydd o gonsensws**

4.6 Roedd **Adran 1** yn ceisio archwilio effaith darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant. Roedd consensws ymhlith y cyfranogwyr bod ansawdd y gofal yn amrywio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol er-elw a nid-er-elw. Yn ogystal, cytunwyd y gall cyfyngiadau ariannol o fewn ALlau arwain at wasanaethau annigonol a phrinder staff mewn lleoliadau gofal nid-er-elw.

4.7 Yn **Adran 2,** gofynnwyd i gyfranogwyr drafod effeithiau posibl dileu darpariaeth er-elw. O safbwynt yr effeithiau cadarnhaol posibl, daeth y cyfranogwyr i gonsensws y gallai dileu darpariaeth er-elw gymell darparwyr i flaenoriaethu ansawdd gofal yn hytrach na budd ariannol, gan arwain o bosibl at ansawdd gwasanaeth gwell. Ni ddaethpwyd i gonsensws ar effeithiau negyddol posibl dileu darpariaeth er-elw. Er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol, cytunodd y cyfranogwyr ar nifer o fesurau awgrymedig, gan gynnwys: i) cyfathrebu tryloyw, canllawiau a chymorth parhaus i randdeiliaid sy'n ymwneud â'r cyfnod pontio; ii) cyllid digonol ar gyfer buddsoddiad nid-er-elw; iii) datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal; iv) ailuno'n ddiogel â theuluoedd biolegol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal; v) darparu gwasanaethau eiriolaeth a chymorth perthnasol i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt; a vi) sefydlu Bwrdd Ymgynghorwyr amlddisgyblaethol i oruchwylio gweithrediad yr ymrwymiad.

4.8 Roedd **Adran 3** yn archwilio trawsnewidiad ehangach gofal cymdeithasol plant. O ran effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn

ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru, daethpwyd i gonsensws ar effeithiau cadarnhaol tymor byr a hirdymor. Roedd effeithiau o'r fath yn cynnwys: gwell cynllunio a chydweithio rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector; rheoleiddio prisiau lleoliadau yn well; a defnydd mwy effeithiol o arian cyhoeddus. Yn ogystal, roedd disgwyl i drawsnewid y ddarpariaeth i fod yn fwy lleol ac ymatebol i anghenion plant arwain at effaith gadarnhaol hirdymor. Roedd consensws hefyd ynghylch cysondeb gweithredu'r newidiadau hyn ar draws gwahanol ranbarthau.

4.9 Gan ganolbwyntio ar effaith yr ymrwymiad a'r trawsnewid ehangach ym maes gofal cymdeithasol plant ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc yng Nghymru, roedd consensws nad yw dileu elw yn gwarantu canlyniadau llesiant cadarnhaol oherwydd heriau cynhenid y sector nid-er-elw. Roedd cytundeb hefyd y byddai cyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol yn gofyn am gynllunio pontio effeithiol a chymorth i ddarparwyr gofal a gweithwyr proffesiynol yn ystod y cyfnod gweithredu.

4.10 Cafwyd consensws ar fwyafrif y mesurau a ddeilliodd o'r astudiaeth i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac ar ben hynny cafwyd canrannau uchel iawn o gytundeb. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys: i) diweddariadau cynnydd rheolaidd ar y buddsoddiadau sydd ar gael i gefnogi'r sector nid-er-elw; ii) naratif cyhoeddus cryfach sy'n hyrwyddo gofal fel gwasanaeth buddiol sy'n arddangos ei effaith ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd; iii) cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau perthnasol ar y cyd i ddiwallu anghenion amrywiol plant; iv) aliniad â nodau'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid; v) system dyrannu cyllid fwy effeithlon sy'n targedu gwasanaethau plant yn uniongyrchol; vi) buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad i weithwyr proffesiynol ac arweinwyr gofal preswyl; vii) mynd i'r afael â'r gwahaniaethau mewn ffioedd a lwfansau gofal maeth; viii) gweithredu mesurau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar; a ix) hyrwyddo ymrwymiadau i ddarparu llety ar gyfer anghenion cymhleth ym mhob rhanbarth.

**Meysydd heb gonsensws**

4.11 Yn **Adran 1**, roedd gan y cyfranogwyr wahanol farn ynglŷn ag effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant. Roedd safbwyntiau'n amrywio ynghylch p'un a yw darpariaeth er-elw yn arwain at ofal o ansawdd is a mwy o achosion o dorri rheoliadau o'i gymharu â gwasanaethau nid-er-elw. Roedd gwahaniaeth barn hefyd ynghylch p'un a yw darparwyr nid-er-elw yn canolbwyntio mwy ar y plentyn ac yn ymatebol i anghenion unigol, ac a yw darparwyr er-elw yn blaenoriaethu cost-

effeithiolrwydd dros anghenion plant. Yn ogystal, roedd safbwyntiau cyferbyniol ar ail-fuddsoddi'r arian dros ben gan ddarparwyr nid-er-elw.

4.12 Yn **Adran 2,** roedd barn y cyfranogwyr yn amrywio ynghylch effeithiau cadarnhaol posibl dileu darpariaeth er-elw, gan gynnwys a fyddai darpariaeth er-elw yn safoni'r gwasanaethau a ddarperir ac yn caniatáu i blant aros yn agosach at eu cartrefi a'u cymunedau. Gan adleisio'r safbwyntiau cyferbyniol ar ail-fuddsoddi'r arian dros ben gan ddarparwyr nid-er-elw a gofnodwyd yn Adran 1, roedd y farn hefyd yn amrywio ynghylch a fyddai dileu elw yn arwain darparwyr i ail-fuddsoddi'r arian dros ben yn ôl mewn gwasanaethau, a thrwy hynny sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i blant ag anghenion cymhleth. Roedd rhai hefyd yn cwestiynu'r gydberthynas rhwng y math o fusnes ac ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal, a chanlyniadau llesiant.

4.13 Cafwyd cryn ddadlau ynghylch effeithiau negyddol posibl dileu er-elw, heb gyrraedd unrhyw gonsensws. Roedd arbenigwyr yn parhau i fod yn ansicr ynghylch y posibilrwydd o golli staff a gofalwyr maeth sy'n ymwneud â darpariaeth er-elw ar hyn o bryd, gostyngiad mewn gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â llai o ddewis a hyblygrwydd o ran sicrhau lleoliadau priodol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Ni ddaethpwyd i gonsensws ynghylch y posibilrwydd o gau ac adleoli darparwyr er-elw a'r effaith fyddai hynny'n ei chael ar argaeledd gwasanaethau yn y tymor byr, na'r posibilrwydd y byddai plant yn byw mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd dadleuon hefyd ynghylch goblygiadau cost posibl megis cynnydd mewn costau dros dro yn y lleoliadau presennol, cynnydd tymor byr a hirdymor mewn costau lleoliadau a all arwain at bwysau cyllidebol ar ALlau, a gohirio mentrau datblygu eraill oherwydd adnoddau prin.

4.14 Ar y llaw arall, roedd y mesurau a awgrymwyd i sicrhau effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol yn llai o bwnc dadl, gyda dim ond pedwar o'r rhain heb gyrraedd consensws. Roedd y rhain yn ymwneud â blaenoriaethu darpariaeth cyllid ar gyfer plant gyda SEND, cynnig cymhellion ariannol i annog pontio rhwng darparwyr er-elw, ac ymyriadau i reoli anghydbwysedd cyflenwad a galw mewn lleoliadau ar draws awdurdodau lleol ac osgoi oedi wrth weithredu'r ymrwymiad.

4.15 Cynhyrchodd yr effeithiau a mesurau awgrymedig yn **Adran 3** gonsensws sylweddol uwch ymhlith y cyfranogwyr, fel y crynhowyd yn flaenorol. Roedd yr ychydig feysydd lle na chafwyd consensws yn cynnwys effeithiau negyddol posibl yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Roedd y

farn yn amrywio ynghylch p’un a fyddai hyn yn cael effaith negyddol yn y tymor byr oherwydd cau a’r posibilrwydd o adleoli darparwyr er-elw, yn ogystal ag effaith negyddol tymor byr ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant a llesiant staff oherwydd newidiadau mewn recriwtio a chadw, neu effaith negyddol hirdymor dargyfeirio adnoddau oddi wrth yr agenda drawsnewid ehangach. Roedd cyfranogwyr yn parhau i fod yn amheus a all yr ymrwymiad a thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach arwain yn uniongyrchol at effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc, ond ni ddaethpwyd i gonsensws ynghylch a ellir sicrhau effeithiau cadarnhaol gydag amserlen fwy realistig ar gyfer gweithredu, a all osgoi’r aflonyddwch sy’n peryglu canlyniadau llesiant. Yn olaf, yr unig fesur i beidio â sicrhau consensws oedd yr awgrym am ddull polisi mwy hirdymor yn lle’r ymrwymiad i ddileu elw.

## 5. Cyfeiriadau


Ablitt, J., Jimenez, P. & Holland, S. (2024). *Cael gwared ag elw o ofal preswyl a gofal maeth i blant: adolygiad tystiolaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 34/2024.

Bach-Mortensen, A.M., Goodair, B. & Barlow, J. (2022). Outsourcing and children's social care: A longitudinal analysis of inspection outcomes among English children's homes and local authorities. Social Science & Medicine, 313: 115323.

Bach-Mortensen, A.M., Goodair, B. & Barlow, J. (2023). For-profit outsourcing and its effects on placement stability and locality for children in care in England, 2011-2022: A longitudinal ecological analysis. *Child Abuse & Neglect*, 144: 106245.

Brenner, M., Hilliard, C., Regan, G., et al (2014) Research priorities for children's nursing in Ireland: a Delphi study. *Journal of Pediatric Nursing*, 29 (4): 301-8.

Holmes, R. & Singer-Vine, J. (2018). Danger And Despair Inside Cambian Group, Britain's Largest Private Child Care Home Provider. *BuzzFeed*.

Arolygiaeth Gofal Cymru (d.d.) *Offer data*. [Cyrchwyd 12 Mehefin 2024].

Christian, H.E., Cross, D., Rosenberg, M. et al. (2020). Development of physical activity policy and implementation strategies for early childhood education and care settings using the Delphi process. *International Journal of Behavioral Nutrition and Physical Activity*, 17: 131.

Competition and Markets Authority (2022). *Children's social market study*.

*Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [Fel y'i cyflwynwyd]* (2024). Senedd Cymru.

Howard League for Penal Reform (2019). *Private profit from children's services*.

MacAlister, (2022). *The independent review of children's social care*.

Narey, M. (2016). *Residential Care in England*.

Vogel, C., Zwolinsky, S., Griffiths, C. et al. (2019). A Delphi study to build consensus on the definition and use of big data in obesity research. *Int J Obes (Lond)*, 43: 2573-2586.

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2024). *Barn arbenigol ar ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal*.

Llywodraeth Cymru (2019). *Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid*.

Llywodraeth Cymru (2023). *Cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant, Gofal Iechyd Parhaus, adrodd gorfodol a rheoleiddio ac arolygu: Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb*.

Senedd Cymru (2023). *Plant sydd â Phrofiad o Ofal - Briff Ystadegol*.

## Atodiad A – Deunyddiau ymchwil

### Holiadur Delphi 1

*Gwybodaeth cefndir*

Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r manteision a'r canlyniadau andwyol posibl sy'n gysylltiedig â dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Gwnaethpwyd yr ymrwymiad i ddileu'r holl elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru gyda'r bwriad bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn gofal plant – gan ddechrau gyda chartrefi preswyl a gwasanaethau maethu – nad yw'n gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei fuddsoddi yn ôl mewn gwasanaethau.

Bwriad yr astudiaeth ymchwil hon yw adeiladu ar ymgynghoriad cyhoeddus cynharach i ddod â barn ymchwilwyr, ymarferwyr a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol ynghyd yn systematig, yn ogystal ag eraill sy'n gweithio'n agos yn y maes hwn. Mae Alma Economics yn defnyddio dull ymchwil Delphi i ddwyn ynghyd farn arbenigwyr i asesu i ba raddau y byddai dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn effeithio ar y gofal y mae'r plant hyn yn ei dderbyn a'r canlyniadau dilynol. Nod yr astudiaeth yw cael consensws ar draws yr arbenigwyr ar y meysydd hyn, er lle na cheir consensws, bydd yr astudiaeth yn adrodd ar ystod o farn a safbwyntiau.

Troednodyn: Plentyn sy'n derbyn gofal yw rhywun sydd wedi bod yng ngofal eu Hawdurdod Lleol (sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus yn yr ardal leol) am fwy na 24 awr, am ragor o wybodaeth gweler y briff hwn.

*Rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth*

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn hanfodol i helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi y bydd eich barn yn cael ei chadw'n ddienw.

Mae'r arolwg hwn yn cynnwys cwestiynau amlddewis a phenagored a bydd yn cymryd tua 20 munud i chi ei gwblhau. Yn gyntaf, mae cyfres o gwestiynau yn ymwneud â'ch cefndir neu arbenigedd mewn gofal cymdeithasol plant. Mae rhannu'r wybodaeth hon â ni yn bwysig oherwydd bydd yn ein helpu i ddeall unrhyw gydberthynas bosibl rhwng eich maes gwaith/arbenigedd a'r farn a fynegir er mwyn rhoi'r dadansoddiad a'r canfyddiadau yn eu cyd-destun ehangach. Yna bydd y tair adran sy'n weddill yn cynnwys rhwng 2-4 cwestiwn yr un ar:

i. Effeithiau presennol darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant

ii. Effeithiau posibl gweithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

iii. Edrych ar y trawsnewid ehangach ym maes gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.

Gofynnir cwestiwn myfyriol terfynol, sy'n ddewisol i'w ateb, ar ddiwedd yr holiadur.

Bydd yr arolwg yn cau ar 10fed Ebrill am 11.59pm.

Mae bar cynnydd ar waelod pob tudalen yn dangos pa gyfran o'r arolwg yr ydych wedi'i chwblhau. Sylwch nad oes opsiwn i arbed eich cynnydd ac ailddechrau yn ddiweddarach, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd trwy'r holl gwestiynau a thudalennau, a'ch bod yn dewis 'Cyflwyno' cyn cau eich porwr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwil hwn, cysylltwch â'r Prif Ymchwilydd ar gyfer y prosiect, Dr Eleni Kotsira, ar eleni.kotsira@almaeconomics.com.

1. ***Rwyf wedi darllen ac yn deall y telerau cyfranogiad fel y'u hamlinellir uchod, a chytunaf i fwrw ymlaen â'r arolwg.***

   **Cytunaf [ymlaen i'r adran nesaf]**

*Gwybodaeth am y cyfanogwr*

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ein helpu i ddeall y gydberthynas bosibl rhwng eich maes gwaith/arbenigedd a'r farn a fynegir. Dim ond am eich swydd/profiad perthnasol a'r rhanbarth/gwlad lle'r ydych yn gweithio y byddwn yn holi. Rydym yn deall y gall eich profiad rychwantu sawl sector, felly atebwch ble mae eich profiad orau.

2. Ym mha sector rydych chi'n gweithio?
   - Academia/ ymchwil
     - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
       - Cymru
       - Lloegr
       - Yr Alban
       - Gogledd Iwerddon
       - Y tu allan i'r DU.
         - Enw'r wlad lle'r ydych chi'n gweithio:
           (blwch testun)
     - Ers pryd ydych chi wedi cynnal ymchwil sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol plant?
       (blwch testun)
   - Gofal cymdeithasol plant (Cymru yn unig)

        - Ym mha Awdurdod Lleol yng Nghymru ydych chi'n gweithio?
            - Blaenau Gwent
            - Pen-y-bont ar Ogwr
            - Caerffili
            - Caerdydd
            - Sir Gaerfyrddin
            - Ceredigion
            - Conwy
            - Sir Ddinbych
            - Sir y Fflint
            - Gwynedd
            - Ynys Môn
            - Merthyr Tudful
            - Sir Fynwy
            - Castell-nedd Port Talbot
            - Casnewydd
            - Sir Benfro
            - Powys
            - Rhondda Cynon Taf
            - Abertawe
            - Torfaen
            - Bro Morgannwg
            - Wrecsam
    - Pa fath o ofal ydych chi'n ei ddarparu?
        - Gofal maeth
        - Gofal preswyl
    - Pa fath o fusnes yw eich sefydliad?
        - Sefydliad er-elw / sector preifat
        - Sefydliad nid-er-elw / sector cyhoeddus (e.e., Awdurdod Lleol)
    - Beth yw teitl eich swydd?
      (blwch testun)
    - Ers pryd ydych chi'n gweithio yn y sector?
      (blwch testun)
- Elusennau
    - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
        - Cymru
        - Lloegr
        - Yr Alban
        - Gogledd Iwerddon
        - Y tu allan i'r DU
    - Beth yw teitl eich swydd?
      (blwch testun)

        - Ers pryd ydych chi'n gweithio yn y sector?
          (blwch testun)
    - Awdurdodau Lleol (Cymru yn unig)
        - Ym mha Awdurdod Lleol yng Nghymru ydych chi'n gweithio?
            - Blaenau Gwent
            - Pen-y-bont ar Ogwr
            - Caerffili
            - Caerdydd
            - Sir Gaerfyrddin
            - Ceredigion
            - Conwy
            - Sir Ddinbych
            - Sir y Fflint
            - Gwynedd
            - Ynys Môn
            - Merthyr Tudful
            - Sir Fynwy
            - Castell-nedd Port Talbot
            - Casnewydd
            - Sir Benfro
            - Powys
            - Rhondda Cynon Taf
            - Abertawe
            - Torfaen
            - Bro Morgannwg
            - Wrecsam
        - Beth yw teitl eich swydd?
          (blwch testun)
        - Ers pryd ydych chi'n gweithio yn y sector?
          (blwch testun)

    - Sefydliadau llywodraeth
        - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
            - Cymru
            - Lloegr
            - Yr Alban
            - Gogledd Iwerddon
            - Y tu allan i'r DU
                - Enw'r wlad lle'r ydych chi'n gweithio:
                  (blwch testun)
        - Beth yw teitl eich swydd?
          (blwch testun)

        - Ers pryd ydych chi’n gweithio yn y sector?
          (blwch testun)
    - Arall (blwch testun)
        - Ym mha wlad ydych chi’n gweithio?
            - Cymru
            - Lloegr
            - Yr Alban
            - Gogledd Iwerddon
            - Y tu allan i'r DU
                - Enw’r wlad lle’r ydych chi’n gweithio:
                  (blwch testun)
        - Ym mha sector ydych chi’n gweithio?
          (blwch testun)
        - Beth yw teitl eich swydd?
          (blwch testun)
        - Ers pryd ydych chi’n gweithio yn y sector?
          (blwch testun)

*Adran 1: Effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant*

Ledled Cymru, mae’r rhan fwyaf o ofal preswyl plant yn cael ei ddarparu gan wasanaethau er-elw – tua 87%. Ar gyfer gofal maeth, mae'r ffigwr tua 35%.

Bydd yr adran ganlynol yn archwilio **effeithiau darpariaeth er-elw** ym maes gofal cymdeithasol plant. Rydym yn ceisio deall eich barn ar effeithiau darpariaeth er-elw yn erbyn darpariaeth nid-er-elw ar **ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal** i blant o fewn gwasanaethau preswyl plant neu wasanaethau gofal maeth. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn yr effaith ar **ganlyniadau llesiant** i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal (gan gynnwys canlyniadau bywyd pellach fel addysg, diogelwch, ac ymgysylltu â’r system cyfiawnder troseddol, er enghraifft).

Atebwch y cwestiynau canlynol yn yr adran hon gan dynnu ar eich profiad, p'un a yw hyn yn benodol i Gymru ai peidio. Os credwch ei bod yn briodol defnyddio enghreifftiau yn eich ateb, mae croeso i chi wneud hynny.

3. Sut mae’r math busnes y ddarpariaeth (er-elw neu nid-er-elw) o ofal preswyl neu ofal maeth plant yn effeithio ar y canlynol?

    a. Ansawdd a natur y gofal a ddarperir i blant

    b. Canlyniadau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal.

4. O'i gymharu â ffactorau eraill, pa mor arwyddocaol yw'r math o fusnes (er-elw neu nid-er-elw) o ran effeithio ar ansawdd a natur darpariaeth gofal a chanlyniadau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal?

Troednodyn: Mae hyn yn cyfeirio at fodelau perchnogaeth a/neu gyfansoddiad sydd, yn gyffredinol:

- er-elw (gan gynnwys cwmnïau cyfyngedig, cyrff corfforaethol ac eraill y mae eu cyfansoddiad yn galluogi echdynnu gwarged/elw mewn, er enghraifft, ffioedd, cyflogau, tâl, bonysau, difidendau, neu fuddion tebyg eraill);
- nid-er-elw (gan gynnwys elusennau, lle caiff unrhyw warged ei ail-fuddsoddi yn y busnes neu ei ddefnyddio ar gyfer modd elusennol); a
- darpariaeth Awdurdod Lleol (h.y. a redir yn gyhoeddus).

*Adran 2: Effeithiau posibl gweithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw o ofal plant sy'n derbyn gofal*

Bydd yr adran ganlynol yn archwilio **effeithiau posibl gweithredu'r ymrwymiad** i ddileu elw preifat o ofal preswyl a gofal maeth plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Rydym yn ceisio deall eich barn ar yr **effeithiau cadarnhaol posibl** a allai godi a strategaethau posibl i sicrhau'r rhain. Yn ogystal, mae gennym ddiddordeb mewn nodi unrhyw **ganlyniadau anfwriadol** ynghyd â strategaethau pwysig i liniaru'r rhain.

Atebwch y cwestiynau canlynol yn yr adran hon gan dynnu ar eich profiad, p'un a yw hyn yn benodol i Gymru ai peidio. Os credwch ei bod yn briodol defnyddio enghreifftiau yn eich ateb, mae croeso i chi wneud hynny.

5. Pa **effeithiau cadarnhaol** a allai ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw?
    a. Ym mha ffyrdd y gallai’r effeithiau hyn amrywio ar draws gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig neu anghenion cymhleth?
6. Pa **fesurau** ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i helpu i sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad?
7. Pa **ganlyniadau anfwriadol** posibl a allai ddeillio o weithredu'r ymrwymiad?
    a. Ym mha ffyrdd y gallai’r effeithiau hyn amrywio ar draws gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig neu anghenion cymhleth?

8. Pa **fesurau** ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i liniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'r ymrwymiad?

Troednodyn:

Yn y DU, mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd oedran; ailbennu rhywedd; bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil; bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth; anabledd; hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Gelwir y rhain yn 'nodweddion gwarchodedig'.

*Adran 3: Archwilio trawsnewidiad ehangach gofal cymdeithasol plant*

Mae'r ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn rhan o weledigaeth ehangach i drawsnewid gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae'n ceisio **cyflawni newid system gyfan** i ddarparu gwasanaethau sy'n gweithredu'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol, ac sy'n atebol yn lleol tra'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, a chanlyniadau gwell i blant agored i niwed ledled Cymru.

Bydd yr adran ganlynol yn asesu effaith yr ymrwymiad ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach. Rydym yn ceisio deall eich barn ar **effeithiau posibl trawsnewid ehangach** gofal cymdeithasol plant ar **gynaliadwyedd a sefydlogrwydd** gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yn ogystal â **chanlyniadau llesiant** i blant a phobl ifanc.

Atebwch y cwestiynau canlynol yn yr adran hon gan dynnu ar eich profiad, p'un a yw hyn yn benodol i Gymru ai peidio. Os credwch ei bod yn briodol defnyddio enghreifftiau yn eich ateb, mae croeso i chi wneud hynny.

9. A ydych yn meddwl y bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach gan Lywodraeth Cymru, yn effeithio ar **gynaliadwyedd a sefydlogrwydd** gofal cymdeithasol plant yng Nghymru? Os felly, ym mha ffordd? Os na fydd, pam?
    a. Fel arall, beth fyddai'n digwydd pe na bai'r ymrwymiad yn cael ei roi ar waith?
10. A ydych yn meddwl y bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach gan Lywodraeth Cymru, yn effeithio ar y **canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc**? Os felly, ym mha ffordd? Os na fydd, pam?
11. Fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol plant, pa **fesurau** ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i wella

**cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal** i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru?

*Cwestiwn myfyriol*

Mewn egwyddor, a ydych yn cytuno â'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru? Esboniwch y rhesymau dros eich ymateb.

**Holiadur Delphi 2**

*Gwybodaeth cefndir*

Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r manteision a'r canlyniadau andwyol posibl sy'n gysylltiedig â dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Gwnaethpwyd yr ymrwymiad i ddileu'r holl elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn y [Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru] gyda'r bwriad bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn gofal plant – gan ddechrau gyda chartrefi preswyl a gwasanaethau maethu – nad yw'n gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei fuddsoddi yn ôl mewn gwasanaethau.

Bwriad yr astudiaeth ymchwil hon yw adeiladu ar ymgynghoriad cyhoeddus cynharach i ddod â barn ymchwilwyr, ymarferwyr a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol ynghyd yn systematig, yn ogystal ag eraill sy'n gweithio'n agos yn y maes hwn. Mae Alma Economics yn defnyddio dull ymchwil Delphi i ddwyn ynghyd farn arbenigwyr i asesu i ba raddau y byddai dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn effeithio ar y gofal y mae'r plant hyn yn ei dderbyn a'r canlyniadau dilynol. Nod yr astudiaeth yw cael consensws ar draws yr arbenigwyr ar y meysydd hyn, er lle na cheir consensws, bydd yr astudiaeth yn adrodd ar ystod o farn a safbwyntiau.

Troednodyn: Plentyn sy'n derbyn gofal yw rhywun sydd wedi bod yng ngofal eu Hawdurdod Lleol (sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus yn yr ardal leol) am fwy na 24 awr.

*Rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth*

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn hanfodol i helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi y bydd eich barn yn cael ei chadw'n ddienw.

Mae'r arolwg hwn yn cynnwys cwestiynau amlddewis yn bennaf a bydd yn cymryd tua 15-20 munud i chi ei gwblhau. Bydd gofyn i chi raddio eich cytundeb â chyfres o ddatganiadau (e.e., Cytuno'n Gryf, Cytuno, Anghytuno, Anghytuno'n Gryf, Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno). Ar ddiwedd pob adran mae blwch testun agored dewisol i chi egluro unrhyw bwyntiau os teimlwch nad yw eich ateb yn cyfleu eich barn yn ddigonol. Yn gyntaf, mae cyfres o gwestiynau yn ymwneud â'ch cefndir neu arbenigedd mewn gofal cymdeithasol plant. Mae rhannu'r wybodaeth hon â ni yn bwysig oherwydd bydd yn ein helpu i ddeall unrhyw gydberthynas bosibl rhwng eich maes gwaith/arbenigedd a'r farn a fynegir er mwyn rhoi'r dadansoddiad a'r

canfyddiadau yn eu cyd-destun pellach. Yna bydd y tair adran arall yn cynnwys cyfres o ddatganiadau byr i raddio eich cytundeb o ran:

i. Effeithiau presennol darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant

ii. Effeithiau posibl gweithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

iii. Edrych ar y trawsnewid ehangach ym maes gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.

Cynhyrchwyd y datganiadau o ganfyddiadau'r holiadur cyntaf, gyda'ch ymatebion yn ein helpu i fesur ble yn union y mae consensws ar y pwnc hwn a ble mae'r farn yn amrywio. Bydd yr arolwg yn cau ar 8 Mai am 11.59pm.

Ar ôl i chi gyflwyno'r holiadur, bydd cyfle i ddilyn dolen i gofrestru ar gyfer cam olaf yr astudiaeth hon sy'n cynnwys grwpiau ffocws a gynhelir dros Microsoft Teams. Er bod hyn yn ddewisol, byddai eich cyfranogiad yn cael ei werthfawrogi'n fawr er mwyn mireinio ymhellach yr hyn a ddysgwyd o'r astudiaeth hon.

Mae bar cynnydd ar waelod pob tudalen sy'n dangos pa gyfran o'r arolwg yr ydych wedi'i chwblhau. Sylwch nad oes opsiwn i arbed eich cynnydd ac ailddechrau yn ddiweddarach, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd trwy'r holl gwestiynau a thudalennau, a'ch bod yn dewis 'Cyflwyno' cyn cau eich porwr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwil hwn, cysylltwch â'r Prif Ymchwilydd ar gyfer y prosiect, Dr Eleni Kotsira, ar eleni.kotsira@almaeconomics.com.

**1. Rwyf wedi darllen ac yn deall y telerau cyfranogiad fel y'u hamlinellir uchod, a chytunaf i fwrw ymlaen â'r arolwg.**

**Cytunaf [ymlaen i'r adran nesaf]**

*Gwybodaeth am y cyfanogwr*

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ein helpu i ddeall y gydberthynas bosibl rhwng eich maes gwaith/arbenigedd a'r farn a fynegir. Dim ond am eich swydd/profiad perthnasol a'r rhanbarth/gwlad lle'r ydych yn gweithio y byddwn yn holi. Rydym yn deall y gall eich profiad rychwantu sawl sector, felly atebwch ble mae eich profiad orau.

2. Ym mha sector rydych chi'n gweithio?

- Academia/ ymchwil
  - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
    - Cymru

        - Lloegr
        - Yr Alban
        - Gogledd Iwerddon
        - Y tu allan i'r DU.
            - Enw'r wlad lle'r ydych chi'n gweithio:
              (blwch testun)
    - Ers pryd ydych chi wedi cynnal ymchwil sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol plant?
      (blwch testun)
- Gofal cymdeithasol plant (Cymru yn unig)
    - Ym mha Awdurdod Lleol yng Nghymru ydych chi'n gweithio?
        - Blaenau Gwent
        - Pen-y-bont ar Ogwr
        - Caerffili
        - Caerdydd
        - Sir Gaerfyrddin
        - Ceredigion
        - Conwy
        - Sir Ddinbych
        - Sir y Fflint
        - Gwynedd
        - Ynys Môn
        - Merthyr Tudful
        - Sir Fynwy
        - Castell-nedd Port Talbot
        - Casnewydd
        - Sir Benfro
        - Powys
        - Rhondda Cynon Taf
        - Abertawe
        - Torfaen
        - Bro Morgannwg
        - Wrecsam
    - Pa fath o ofal ydych chi'n ei ddarparu?
        - Gofal maeth
        - Gofal preswyl
    - Pa fath o fusnes yw eich sefydliad?
        - Sefydliad er-elw / sector preifat
        - Sefydliad nid-er-elw / sector cyhoeddus (e.e., Awdurdod Lleol)
    - Beth yw teitl eich swydd?
      (blwch testun)
    - Ers pryd ydych chi'n gweithio yn y sector?

(blwch testun)

- Elusennau
  - Ym mha wlad ydych chi’n gweithio?
    - Cymru
    - Lloegr
    - Yr Alban
    - Gogledd Iwerddon
    - Y tu allan i'r DU
  - Beth yw teitl eich swydd?
    (blwch testun)
  - Ers pryd ydych chi’n gweithio yn y sector?
    (blwch testun)
- Awdurdodau Lleol (Cymru yn unig)
  - Ym mha Awdurdod Lleol yng Nghymru ydych chi'n gweithio?
    - Blaenau Gwent
    - Pen-y-bont ar Ogwr
    - Caerffili
    - Caerdydd
    - Sir Gaerfyrddin
    - Ceredigion
    - Conwy
    - Sir Ddinbych
    - Sir y Fflint
    - Gwynedd
    - Ynys Môn
    - Merthyr Tudful
    - Sir Fynwy
    - Castell-nedd Port Talbot
    - Casnewydd
    - Sir Benfro
    - Powys
    - Rhondda Cynon Taf
    - Abertawe
    - Torfaen
    - Bro Morgannwg
    - Wrecsam
  - Beth yw teitl eich swydd?
    (blwch testun)
  - Ers pryd ydych chi’n gweithio yn y sector?
    (blwch testun)
- Sefydliadau llywodraeth
  - Ym mha wlad ydych chi’n gweithio?

            - Cymru
            - Lloegr
            - Yr Alban
            - Gogledd Iwerddon
            - Y tu allan i'r DU
                - Enw'r wlad lle'r ydych chi'n gweithio:
                  (blwch testun)
        - Beth yw teitl eich swydd?
          (blwch testun)
        - Ers pryd ydych chi'n gweithio yn y sector?
          (blwch testun)
- Arall (blwch testun)
    - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
        - Cymru
        - Lloegr
        - Yr Alban
        - Gogledd Iwerddon
        - Y tu allan i'r DU
            - Enw'r wlad lle'r ydych chi'n gweithio:
              (blwch testun)
    - Ym mha sector ydych chi'n gweithio?
      (blwch testun)
    - Beth yw teitl eich swydd?
      (blwch testun)
    - Ers pryd ydych chi'n gweithio yn y sector?
      (blwch testun)

*Adran 1: Effeithiau darpariaeth er-elw ym maes gofal cymdeithasol plant*

3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol sy'n archwilio <u>effaith y math o fusnes</u> ar ansawdd a natur darpariaeth gofal a chanlyniadau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal?**

    A. Mae amrywiaeth yn ansawdd gofal yn y ddarpariaeth nid-er-elw a'r ddarpariaeth er-elw.

    B. Mae darpariaeth er-elw yn darparu gofal o ansawdd is.

    C. Gall darpariaeth er-elw arwain at fwy o achosion o dorri rheoliadau.

    D. Mae darpariaeth nid-er-elw yn cael ei gweld fel rhywbeth sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn ac yn fwy ymatebol i anghenion unigol.

    E. Mae darpariaeth er-elw yn blaenoriaethu lleoliadau mewn eiddo cost-effeithiol ac ardaloedd daearyddol dros anghenion plant.

F. Tra bod elw gan ddarparwyr er-elw yn cael ei ddargyfeirio i fannau eraill, mae arian dros ben gan ddarparwyr nid-er-elw yn cael ei ail-fuddsoddi i wella ansawdd gwasanaethau.

G. Gall cyfyngiadau ariannol mewn Awdurdodau Lleol arwain at wasanaethau annigonol a phrinder staff mewn gofal nid-er-elw.

4. Os hoffech egluro eich ymatebion i unrhyw un o’r cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny isod gan nodi rhif y cwestiwn yr ydych yn ymateb iddo.

   [Blwch testun]

*Adran 2: Effeithiau posibl dileu darpariaeth er-elw*

5. **I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r datganiadau canlynol sy’n amlinellu'r <u>effeithiau cadarnhaol</u> a all ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw?**

   A. Gall dileu darpariaeth er-elw gymell darparwyr i flaenoriaethu ansawdd gofal yn hytrach na budd ariannol, gan arwain at wasanaethau o ansawdd gwell.

   B. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn sicrhau dull mwy safonol o ddarparu gwasanaethau.

   C. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn caniatáu i blant aros yn agosach at eu cartrefi a'u cymunedau.

   D. Bydd dileu elw yn arwain darparwyr i ail-fuddsoddi arian dros ben yn ôl mewn gwasanaethau, gan sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i blant ag anghenion cymhleth.

   E. Nid oes unrhyw gydberthynas, neu mae’r gydberthynas yn un gyfyngedig, rhwng y math o fusnes ac ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal, yn ogystal â chanlyniadau llesiant.

6. Os hoffech egluro eich ymatebion i unrhyw un o’r cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny isod gan nodi rhif y cwestiwn yr ydych yn ymateb iddo.

   [Blwch testun]

7. **I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r datganiadau canlynol sy’n amlinellu'r <u>effeithiau negyddol</u> a all ddeillio o weithredu'r ymrwymiad?**

A. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at gau ac adleoli darparwyr er-elw a fydd yn arwain at lai o ddarpariaeth gwasanaeth ac argaeledd lleoliadau yng Nghymru yn y tymor byr.

B. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at golli staff a gofalwyr maeth sy'n ymwneud â darpariaeth er-elw yng Nghymru ar hyn o bryd.

C. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at leihad penodol mewn gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth.

D. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at fwy o wasanaethau plant byw i mewn yn gweithredu heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

E. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at gynnydd *dros dro* mewn costau yn y lleoliadau presennol cyn gweithredu'r ymrwymiad.

F. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at gynnydd *tymor byr* mewn costau lleoliadau, gan arwain at bwysau cyllidebol ar Awdurdodau Lleol.

G. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at gynnydd *hirdymor* mewn costau lleoliadau, gan arwain at bwysau cyllidebol ar Awdurdodau Lleol.

H. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at lai o ddewis a hyblygrwydd wrth sicrhau lleoliadau priodol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

I. Bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at oedi posibl mewn mentrau datblygu eraill (h.y. gwasanaethau ymyrraeth gynnar) oherwydd adnoddau prin.

8. Os hoffech egluro eich ymatebion i unrhyw un o’r cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny isod gan nodi rhif y cwestiwn yr ydych yn ymateb iddo.

   [Blwch testun]

9. **I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r datganiadau canlynol sy’n amlinellu mesurau ychwanegol i’w cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i helpu i <u>sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol</u> sy’n gysylltiedig â’r ymrwymiad?**

A. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyfathrebu, canllawiau a chymorth tryloyw parhaus i randdeiliaid sy’n ymwneud â’r cyfnod pontio (e.e., ar eithriadau o’r ddeddfwriaeth).

B. Dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn darpariaeth nid-er-elw gan gynnwys hyfforddi staff a datblygu seilwaith.

C. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu darpariaeth ariannu ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND).

D. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymhellion ariannol i annog darparwyr er-elw i drosglwyddo i endid nid-er-elw (seibiannau treth, grantiau, cymorthdaliadau).

E. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiad gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn lleihau'r angen am leoliadau yn y dyfodol (gan gynnwys ar ffiniau gofal a chymorth teulu cyfannol i blant a theuluoedd).

F. Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy ailuno'n ddiogel â'u teuluoedd biolegol.

G. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth a chymorth perthnasol yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt.

H. Dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd i reoli'r anghydbwysedd rhwng cyflenwad a galw lleoliadau ar draws Awdurdodau Lleol.

I. Dylai Llywodraeth Cymru osgoi unrhyw oedi wrth weithredu'r ymrwymiad i ddileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal.

J. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ymrwymiad i ddileu elw yn cael ei oruchwylio drwy greu Bwrdd Ymgynghorwyr amlddisgyblaethol (y rhai sydd ag arbenigedd a phrofiad priodol).

10. Os hoffech egluro eich ymatebion i unrhyw un o’r cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny isod gan nodi rhif y cwestiwn yr ydych yn ymateb iddo.

[Blwch testun]

*Adran 3: Trawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach*

**11. I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r datganiadau canlynol sy’n archwilio effaith yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewidiad ehangach gofal cymdeithasol plant gan Lywodraeth Cymru, ar <u>gynaliadwyedd a sefydlogrwydd</u> gofal cymdeithasol plant yng Nghymru?**

A. Bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael **effaith gadarnhaol tymor byr a hirdymor** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant,

oherwydd gwell cynllunio a chydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a sefydliadau trydydd sector.

B. Bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael **effaith gadarnhaol hirdymor** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, oherwydd y gallu uwch i reoleiddio prisiau lleoliadau.

C. Bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael **effaith gadarnhaol hirdymor** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, oherwydd y gallu cynyddol i sicrhau bod yr arian cyhoeddus sy’n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn cael ei wario ar wasanaethau plant.

D. Bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael **effaith gadarnhaol hirdymor** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, oherwydd trawsnewid cyffredinol y ddarpariaeth i hyrwyddo darpariaeth leol, fwy priodol sy’n ymateb yn well i anghenion plant a phobl ifanc.

E. Mae pryderon efallai na fydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael ei gyflawni a’i weithredu’n gyson ar draws gwahanol ranbarthau.

F. Bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael **effaith negyddol tymor byr** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant gan y gallai cau ac adleoli darparwyr er-elw arwain at lai o ddarpariaeth gwasanaeth ac argaeledd lleoliadau.

G. Bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael **effaith negyddol tymor byr** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant a llesiant staff oherwydd yr effaith ar recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru.

H. Bydd yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael **effaith negyddol hirdymor** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant, o ganlyniad i

ddargyfeirio capasiti ac adnoddau oddi wrth y blaenoriaethau trawsnewid ehangach.

12. Os hoffech egluro eich ymatebion i unrhyw un o'r cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny isod gan nodi rhif y cwestiwn yr ydych yn ymateb iddo.

    [Blwch testun]

13. **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol sy'n archwilio effaith yr ymrwymiad i ddileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach gan Lywodraeth Cymru, ar <u>ganlyniadau llesiant</u> i blant a phobl ifanc yng Nghymru?**

    A. Bydd dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc.

    B. Nid yw dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn gwarantu canlyniadau cadarnhaol gan fod heriau cynhenid yn parhau o fewn y sector nid-er-elw.

    C. Ni fydd dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ond yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc os cynigir cynlluniau pontio a chymorth i ddarparwyr gofal a gweithwyr proffesiynol yn ystod y cyfnod gweithredu.

    D. Bydd dileu elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ond yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc os mabwysiadir amserlen fwy realistig ar gyfer gweithredu, er mwyn osgoi unrhyw amhariadau a allai beryglu canlyniadau llesiant.

14. Os hoffech egluro eich ymatebion i unrhyw un o'r cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny isod gan nodi rhif y cwestiwn yr ydych yn ymateb iddo.

    [Blwch testun]

15. **Fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol plant, pa <u>fesurau ychwanegol</u> y gallai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru?**

    A. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn rheolaidd ynghylch pa fuddsoddiadau y mae'n eu gwneud i gefnogi'r sector nid-er-elw.

B. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu naratif cyhoeddus cryfach, gan hyrwyddo gofal fel rhywbeth buddiol, gan arddangos ei effaith, ac ymgysylltu â'r cyhoedd i gefnogi'r ymdrechion hyn.

C. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cydgynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, llety ac addysg i ddiwallu anghenion amrywiol plant.

D. Dylai Llywodraeth Cymru alinio ymdrechion â nodau'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i sefydlu darpariaethau rhanbarthol llai fel y safon.

E. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu system dyrannu cyllid fwy effeithlon sy'n targedu gwasanaethau plant yn uniongyrchol yn hytrach na setliadau ehangach Awdurdodau Lleol.

F. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu buddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr gofal preswyl, gan gynnwys cyllid parhaus i fwrsariaethau hyfforddi.

G. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn ffioedd a lwfansau gofal maeth er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau.

H. Dylai Llywodraeth Cymru roi mesurau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar waith i leihau'r angen am leoliadau yn y dyfodol (gan gynnwys ar ffiniau gofal a chymorth teulu cyfannol i blant a theuluoedd).

I. Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen ag ymrwymiadau i ddarparu llety ar gyfer anghenion cymhleth ym mhob rhanbarth.

J. Yn lle'r ymrwymiad i ddileu elw, dylai Llywodraeth Cymru yn hytrach gynllunio a gweithredu dull polisi mwy hirdymor (e.e., datblygu darpariaeth newydd drwy fuddsoddiad cyhoeddus uniongyrchol i ddod â modelau sy'n seiliedig ar elw i ben yn raddol).

16. Os hoffech egluro eich ymatebion i unrhyw un o'r cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny isod gan nodi rhif y cwestiwn yr ydych yn ymateb iddo.

[Blwch testun]

**Canllawiau trafod grwpiau ffocws**

*Cyflwyniad*

Yn y grŵp ffocws heddiw rydym yn mynd i ailedrych ar ganfyddiadau'r ail holiadur y bu'n rhaid i chi ei gwblhau fel rhan o'r astudiaeth Delphi hon, gan fynd fesul adran yn y drefn yr ymddangosodd y rhain yn yr holiadur. Yn gyntaf, byddwn yn rhannu'r canlyniadau o gwestiynau pob adran cyn cynnal trafodaeth ar feysydd lle na fu'n bosibl dod i gonsensws, ochr yn ochr â chwestiynau mwy penodol yn ymwneud â'r pwnc. Yna byddwn yn symud ymlaen i'r adran nesaf, ac yn y blaen. Byddwn yn trafod sut y cyfrifir consensws yn ein cyflwyniad byr yn fuan.

*Cynhesu*

1. [Pawb] Yn gyntaf, a allwch chi gyflwyno'ch hun yn fyr a rhannu'r hyn a'ch cymhellodd i gymryd rhan yn y drafodaeth hon?

   ***Nodyn i'r hwylusydd: Dechreuwch trwy rannu cyflwyniad canfyddiadau Holiadur 2, a darparwch grynodeb o'r cyd-destun polisi, amcanion allweddol yr astudiaeth hon, a'r dull methodolegol a fabwysiadwyd.***

*Trafodaeth*

Yn gyntaf, hoffem drafod y datganiadau canlynol lle na chafwyd consensws ar **<u>effaith y math o fusnes</u> ar ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal a chanlyniadau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.**

2. Beth yw eich barn ar y datganiad 'mae darpariaeth er-elw yn darparu gofal o ansawdd is'?

   *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi'n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

3. Beth yw eich barn ar y datganiad 'gall darpariaeth er-elw arwain at fwy o achosion o dorri rheoliadau'?

   *Cwestiwn ategol: [Os ydynt yn cytuno] Pa fanylion penodol y gellir eu darparu ynghylch achosion posibl o dorri rheoliadau?*

*Cwestiynau ychwanegol:*

4. Allwch chi ymhelaethu ar unrhyw dystiolaeth neu ddarparu enghreifftiau penodol o leoliadau er-elw mewn eiddo cost-effeithiol ac ardaloedd daearyddol?

Gan symud ymlaen at yr **<u>effeithiau cadarnhaol</u> a all ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw.**

5. Beth yw eich barn ar y datganiad ‘bydd dileu elw yn arwain darparwyr i ail-fuddsoddi’r arian dros ben yn ôl mewn gwasanaethau, gan sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i blant ag anghenion cymhleth’?

   *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi’n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

6. Beth yw eich barn ar y datganiad ‘nid oes unrhyw gydberthynas, neu mae cydberthynas gyfyngedig, rhwng y math o fusnes ac (i) ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal a (ii) canlyniadau llesiant’?

   *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi’n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

*Cwestiynau ychwanegol:*

7. Ydych chi'n gweld yr effeithiau cadarnhaol a drafodwyd yn yr holiadur fel disgwyliadau realistig?

8. Sut ydych chi'n meddwl bod yr effeithiau cadarnhaol hyn yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig?

   *Cwestiwn trafod (yn ymdrin â chwestiynau sy’n weddill yn yr adran hon): roedd y pethau cadarnhaol gyda chonsensws cyfyngedig a nodwyd yn cynnwys dull mwy safonol o ddarparu gwasanaethau a chaniatáu i blant aros yn nes at eu cartrefi a’u cymunedau, tra bod y ffactor cadarnhaol o ddarpariaeth er-elw yn cymell darparwyr i flaenoriaethu ansawdd gofal yn hytrach nag enillion ariannol, felly'n arwain at wasanaethau o ansawdd gwell, yn dangos consensws clir ymhlith yr ymatebion.*

Nawr, gan symud ymlaen i’r **<u>effeithiau negyddol</u> a all ddeillio o weithredu'r ymrwymiad i ddileu darpariaeth er-elw.**

9. Beth yw eich barn ar ‘bydd dileu darpariaeth er-elw yn arwain at fwy o blant yn byw mewn gwasanaethau yn gweithredu heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru’?

   *Cwestiwn ategol: Ydych chi’n meddwl bod risg realistig y bydd mwy o wasanaethau’n gweithredu heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o ganlyniad i ddileu darpariaeth er-elw?*

10. Beth yw eich barn ar ‘byddai dileu darpariaeth er-elw yn arwain at oedi o bosibl mewn mentrau datblygu eraill (h.y. gwasanaethau ymyrraeth gynnar) oherwydd adnoddau prin’?

    *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi’n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

*Cwestiynau ychwanegol:*

11. Sut ydych chi'n meddwl bod yr effeithiau hyn yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig?
12. Ydych chi'n disgwyl i rai o'r canlyniadau hyn gael eu teimlo'n fwy mewn un sector na'r llall, megis gofal preswyl yn hytrach na gofal maeth?

Hoffem yn awr drafod y datganiad canlynol na chafwyd consensws arno, sef **y mesurau ychwanegol i'w cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i helpu i <u>sicrhau unrhyw effeithiau cadarnhaol</u> a <u>lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol</u> sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad.**

13. Beth yw eich barn ar 'dylai Llywodraeth Cymru osgoi unrhyw oedi wrth weithredu'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal'?

    *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi'n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

*Cwestiynau ychwanegol:*

14. Pa rai o'r strategaethau a gyrhaeddodd gonsensws ddylai gael eu blaenoriaethu?
    a. Dylai Llywodraeth Cymru Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyfathrebu, canllawiau a chymorth tryloyw parhaus i randdeiliaid sy'n ymwneud â'r cyfnod pontio (e.e., ar eithriadau o ddeddfwriaeth).
    b. Dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn darpariaeth nid-er-elw gan gynnwys hyfforddi staff a datblygu seilwaith.
    c. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiad gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn lleihau'r angen am leoliadau yn y dyfodol (gan gynnwys ar ffiniau gofal a chymorth teulu cyfannol i blant a theuluoedd).
    d. Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy ailuno'n ddiogel â'u teuluoedd biolegol.
    e. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth a chymorth perthnasol yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt.
    f. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ymrwymiad i ddileu elw yn cael ei oruchwylio drwy greu Bwrdd Ymgynghorwyr amlddisgyblaethol (y rhai sydd ag arbenigedd a phrofiad priodol.
15. O ran y datganiad cyntaf, pa ganllawiau a chymorth cynhwysfawr y dylid eu darparu yn ystod y cyfnod pontio?

Gan symud ymlaen i **effaith yr ymrwymiad, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, ar <u>gynaliadwyedd a sefydlogrwydd</u> gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.**

16. Beth yw eich barn ar 'yr ymrwymiad a'r trawsnewid ehangach yn cael **effaith negyddol tymor byr** ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant oherwydd yr effaith ar recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru'?

    *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi'n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

17. Yn yr un modd, beth yw eich barn ar **effaith negyddol hirdymor** bosibl o ddileu elw ar gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gofal cymdeithasol plant oherwydd dargyfeirio capasiti ac adnoddau oddi wrth y blaenoriaethau trawsnewid ehangach?

    *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi'n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

Nesaf, hoffem drafod y datganiadau canlynol na lwyddodd i sicrhau consensws ar **effaith yr ymrwymiad i ddileu elw**, **ochr yn ochr â'r trawsnewid ehangach ar y <u>canlyniadau llesiant</u> i blant a phobl ifanc yng Nghymru.**

18. Beth yw eich barn ar 'bydd cael gwared ar elw, ynghyd â thrawsnewid gofal cymdeithasol plant yn ehangach, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc'?

    *Cwestiwn ategol: Pam ydych chi'n meddwl na chyrhaeddwyd consensws?*

Hoffem drafod y datganiad canlynol na lwyddodd i sicrhau consensws ynghylch pa **<u>fesurau ychwanegol</u> y gallai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i wella cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru, fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol plant.**

19. Beth yw eich barn ar 'yn lle'r ymrwymiad i ddileu elw, dylai Llywodraeth Cymru gynllunio a gweithredu dull polisi mwy hirdymor (e.e., datblygu darpariaeth newydd drwy fuddsoddiad cyhoeddus uniongyrchol er mwyn dod â modelau sy'n seiliedig ar elw i ben yn raddol)'?

*Cwestiynau ychwanegol:*

20. Pa rai o'r strategaethau a gyrhaeddodd gonsensws ddylai gael eu blaenoriaethu?

a. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau cynnydd rheolaidd ar ba fuddsoddiadau y mae'n eu gwneud i gefnogi'r sector nid-er-elw

b. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu naratif cyhoeddus cryfach, gan hyrwyddo gofal fel rhywbeth buddiol, arddangos ei effaith, ac ymgysylltu â'r cyhoedd i gefnogi'r ymdrechion hyn.

c. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyd-gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, llety ac addysg i ddiwallu anghenion amrywiol plant.

d. Dylai Llywodraeth Cymru alinio ymdrechion â nodau'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i sefydlu darpariaethau rhanbarthol llai fel y safon.

e. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu system dyrannu cyllid fwy effeithlon sy'n targedu gwasanaethau plant yn uniongyrchol yn hytrach na setliadau ehangach Awdurdodau Lleol.

f. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu buddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygiad i weithwyr proffesiynol ac arweinwyr gofal preswyl, gan gynnwys cyllid parhaus ar gyfer bwrsarïau hyfforddi.

g. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn ffioedd a lwfansau gofal maeth er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau.

h. Dylai Llywodraeth Cymru roi mesurau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar waith i leihau'r angen am leoliadau yn y dyfodol (gan gynnwys ar ffiniau gofal a chymorth teulu cyfannol i blant a theuluoedd).

i. Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen ag ymrwymiadau i ddarparu llety ar gyfer anghenion cymhleth ym mhob rhanbarth.

*I gloi*

21. Unrhyw ddatganiadau na wnaethom eu cynnwys yn ein sgwrs heddiw yr hoffech wneud sylwadau byr arnynt?

22. Unrhyw sylwadau terfynol neu fyfyrdodau ar yr ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofalu am blant sy'n derbyn gofal?